Y

Llyfr Gweddi-Gyffredin,

Y Cydymmaith Goreu;

Yn y Tŷ a'r STAFELL;

Cyftal ac yn y DEML.

NEU

GASGLIAD o WEDDIAU allan o Liturgy EGLWYS LOEGR, yn angenrheidiol i'r holl Deulu ynghyd, ac i bob Dyn yn Neullduol wrtho ei hun.

Gyda ſwydd Bennodol i'r

SACRAMENT.

Gwedi i Genniattau al roddi i lawr yn Llyfr yr Hall yn ôl Gweithred neu Act o Barliament.

Argraphwyd yn y *Mwythig* gan *Thomas Durſton*, lle y gellir chael Printio pob math ar Copiau am bris gweddaidd, a chael ar werth amryw Llyfrau Cymraeg a Saeſnaeg.

WE do Approve and Recommend this work.

Humph: Hereford.

W. Aſeph.

Jo: Bangor.

Jo: Landaff.

Geo: S. Davids.

At yr Anrhydeddus

Farchog a'r Enwog Freyr,

Syr *JOAN WYNN*

o *Watſtay* yn Sir *Ddimbech*.

YMynych brawſ a geſais o'ch daioni a'ch mwyn-der digymmar, a'm hyſbâodd i gyſlwyno y Llyfr tra godidog hwn o weddiau i chwi yn nhafodiaith naturiol eich gwlâd. Mae yn afraid i mi gymmeryd poen i ddangos i chwi mor werthfawr, angen-rhaid, a deſniddiol yw; gan fod yn hyſpys gennyf eiſoes eich bod chwi (Bendeſig graſol) gydâ holl wir Feibion Eglwys Loegr *yn hawdd gennych gydnabod, ei fod ef yn gyfryw ac y mae ei Enw yn dal allan ei fod, ſef y Cyd-ymaith goreu i bob Criſtion defoſionol yn gyhoedd yn ei deulu ac yn ddirgel yn ei Staſell, yn enwedig pan yſt yrier fod yr holl weddiau a gynnwys, wedi eu caſglu allan o Waſanaeth Cyffredin ein Mam ni* Eglwys Loeger; *am yr hwn y gallaſ ddywedyd yr hyn a ddywedodd Dafydd gynt am gleddyf Goliah,* Nid oes yr un debyg iddo. *Ond mae i mi ddirfawr achos (mi a wnn yn dda) i ofyn eich nawdd chwi, a phawb eraill a'i gwelont yn ei wiſc newydd hon; o herwydd dafod i mi, trwy gymmeryd y gwaith yma yn llaw, yſcatfydd attal rhyw law mwy cyſ-arwydd a chelfyddgar yn yr laith hon, rhag ei gyflawni er bodlonrwydd cyffredinol i chwi, a phawb eraill. Ac o herwydd hyn ſe fu yn arſwydus gennyf yn hîr ymhêl ag ef; ac mi a ddymunaf arnoch goelio mae nid gwag ogoniant, nac un cyffelib wael ddiben a barodd i mi gym-meryd y daſc hon arnaf: ond mai fy nibennion yn hyn oedd y rhain a ganlyn; ſef, hyfforddi a chynnhyrfu de-*

ſoſiwnau y Cyffredin anwybodus o'm gwlad. Ac hefyd fel y byddei i mi ddangos ſod gennyf beth ymſynniad o'r holl groeſaw, cymmwynaſau, a'r dirfawr gariad a ddarfu i chwi ei ddangos i mi, tra ſum yn eich gwaſanaethu; ac y chwennychwn o'r lleiaf ſod yn ddiolchgar i chwi. Dim ieb law diolch nis gallaf ail ddychwel i chwi ond dymuned o ddifri fynghalon ſod i'r Duw graſol hwnnw a'ch cododd chwi yn Biler i'r Deyrnas, gynnal i chwi hir einioes, ac iechyd, a'r holl ſendidion a'r trugareddau yſprydol ac amſerol yr y'ch yn eu mwynhau: fel y parhaoch i ſod yn Gymmorth i'ch Teulu, yn Gyſſur i'r Eglwys ag yn Urddas i'ch Gwlad. Ag yn niwedd eich Gyrfa a'ch Milwriaeth ffyddlon, ſod i Griſt yn obrwy am eich Llafur ymddiriedus roii chwi yr Heddwch a'r Gogoniant hwnnw nad eill y Byd twyllodrus eu rhoddi. Hyn yw, ac byth a fydd, daer a beunyddiol weddi

Eich rhwymediceaf a'ch
ufuddaf waſanaethwr

Y

Y Rhag-Ymadrodd.

MAe bod Duw, ac y dylei efgael ei addoli, *yn wirioneddau wedi eu datcuddio mor gyffredinol i'r Cenhedloedd ynfyttaf gan oleuni natur yn unig, fal nad eill un Criſtion yn ddiau* ('ſydd a meſur helaethach o oleuni ganddo) *lyſu eu credu hwynt. am fi yn cyfeirio fy ymadrodd gan hynny at Griſtion yn unig ni chymeraf arna'i gychwyn profi yn eglur y pwnciau hyn iddo, rhag i mi yn ddangos i edliw iddo fwy anwybodaeth nag a gafwyd yn arferol yn y rhai gwaethaf i gid o ddynion rheſymmol.*

Pa fodd bynnag, gormod o Griſtianogion ſydd, pa rai (er mawr waradwydd i'w ſanctteiddiaſ Broffes) ſydd mor llwyr ddifatter a diofal am addoli y Duw hwnnw, pa un yr ymddangoſant i'w gyſaddef a'i credu, mal agos y tueddent Griſtion gwir gariadus i ddatcan yn dra hyfy cyfydy Genhedlaeth anghredadwy honno mewn barn yn eu herbyn hwy, *ac y bydd yn eſmwythach arnynt yn nydd digoſaint. O ran megis y rhyngoad bodd i Ddiw roi i Griſtianogion well moddion i adnabod a mwy cymmorth, a gwell addewidion i'w cymmell i gyflawni eu dyledſwydd: felly yn ddilynol rhaid i'r eſceuluſdra o hyn eu dwyn i fwy damnedigaeth.*

Heb law hyn, eu pergyl ſydd fwy hefyd o herwydd

y mae y rhwymedigaethau mawrion hynny a roesant arnynt eu hunain, pryd ar y cyntaf yn eu Bedydd yr henwydd hwy felly, yn dirfawr drymhau eu pechod. Canys yno hwy o addunasant adduned hynod yr addolent Dduw, ac y gwasanaethent ef yn gywir holl ddyddiau eu heinioes, fal felly nid ellir cyfri' eu hesgeulusdra hwy yma, am ddim llai na'r math waethaf o Anudoniaeth, a thorr-cyfammod a Duw ei hun: ac am hynny nid yn unig a'u difedda o holl leshadau y cyfammod hwnnw, ond hefyd a'u gwna yn ddarostyngedig i lawer angwhanego wailennodiau. Yn ddiammau ni wir ystyria un Cristion diffuant hyn, heb edifarhau yn hollawll am y cyfryw esceulusadau pechadurus, a bwriadu o ddifri' am yr amser sydd i ddyfod i fod yn astud, ac yn ddywyd yn y ddyledswydd. Mae addoliad Duw yn sefyll yn bennaf, mewn offrwm iffynu Weddiau, Mawl, a thalu Diolch: a hyn sydd raid i ni oll ei gystawni yn gyhoedd ac yn ddirgel. Yn gymmaint ag na eill gwneud hyn yn gyhoedd gymmodiam esceuleuso hyn yn y dirgel, nai cystawni yn ddirgel ar y llaw arall, esceuso am ei adael heibio yn y cyhoedd. O ran megis yr ymddengys efyr hwn a wna ei ddyledswydd yn y cyhoedd, i chwareu am glod dynion yn fwy na chlod Duw, ac ni dderbyn ddim gwobr arall: felly fe geiff ef, yr hwn a ymwrthodo ac addoli Duw yn gyhoedd, ac a feddylio fodloni Duw trwy wasanaeth dirgel a neulluol ar ei ben ei hun yn unig, wybod ei fod gwedi ei dwyllo cymhelled, mal yn peidio a gwtando ar yr Eglwys, yr hon a eilw arno mor fynych a thaer' iw ddyledswydd, y gwna ei hun yngolwg

Duw

Duw a phob dynion da megis Angbredad yn neu Bublican, ac ar ol ei holl defosiwnanai dengys ei hun i fod o rifediy Pechaduriaid hynny nid yw Duw yn eu gwrando O ran lle mae gwasanaeth Eglwys sefydledig yn gyfryw, ac y gallwn gyttuno ynthoyn ddibechod, 'fe gyfri' Duw bob neullduad oddiwrth yr Eglwys honno yn drosedd ddirfawr; ac ni eill fod gan gynnifer ac a barhaont o'u gwirfodd, ac yn ystyfnig yntho (pa fodd bynnac y cymmerant arnynt addoli Duw yn ddirgel) ddim achos gyfion i obeithio bodloni Duw: Ond a allant yn fwy rhesymmol ddisgwyl iddo eu cospi yn gyhoedd am eu hanufudd-dod a wêl ele yn y dirgel. Rhaid gan hynny wasanaethu Duw yn gyhoedd yn yr Eglwys, ac yn ddirgel yn y ty. Hynny yw, yn gystal yn ddirgel ar ein pennau ein hunain, ac hefyd yn swy cyhoedd yn ein teuluoedd, pa un ar ei fod yn fath ar wasanaeth cyhoedd hefyd, etto yr wyf yn ei alw yn ddirgel wrth ei gyffelybu a gwasanaeth mwy cyhoedd yr Eglwys.

Ond ni ddarparodd un Eglwys erioed etto yn well tuag-at wasanaeth Duw, na'n Mam dda ni, Eglwys Loegr. O ran hi a ddarparodd mir gystawn Ffurf o Eiriau pur ac iachus, â pha rhai y gallwn wir wasanaethu Duw wrth ei fodd gyda gwylder a pharchedig ofn. Y Ffurf hony gasclodd i ni, nid o'r Offeren Babaidd (megis y cam haerodd rhai, i beri ei chashau) ond allan gynnarach wasanaeth Cyffredin amseroedd purach A lle mae y cyfryw bethau hen ynniffyg, nid yw hi yno yn gorchymmyn dim i'w chymmunwyr, ond naill ai a wnaethpwyd gan, neu oedd yn bodloni y rheini pa

rai oeddynt y gelynion mwyaf i Babyddiaeth a'r Ewyllysgar gorau i'n Hadgyweiriad gogoneddus o'n Crefydd. Ie, y peth a orchymyn (yr hyn yn wir y'w ei hanrhydedd mwyaf) ſwmm a ſylwedd ſancteiddiaf Air Duw ydyw. Iaith y 'Scrythur lân y mae gan ſynnychaf yn ei arfer; os ar un amſer nid yw, ni ellir dywedyd ei bod yn y man hynny yn gwrthwynebu monaw; ond a eill ofyn yn hyſ i'w holl elynion, a dywedyd yn geiriau ei Harglwydd anwyl, Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod?

Darfod i hon ein Heglwys ni gan hynny yn dra lleſol a helaeth drefnu deſoſiwnau dirgel yn gyſtal a rhai cyhoedd i'w phlant, yw ſy mwriad i yr awrhon i'w ddangos yn y Caſcliadau hyn a ganlyn. O ran ſe ymddengys wrth y rhai'n ddarfod iddi nid yn unig lafurio i gymmorthwyo ein gwendid, a rhoi cymmorth i gyſlenwi ein diffygion dirgel ymhob acboſion cyffredinol; ond darfod iddi ymhob digwyddiau anghyffredinol hefyd ein cynnorthwyo yn helaeth, i weddio yn oſtyngedig, ac i dalu diolch i Dduw.

I wneud yn dda yr enw-ddalen gan hynny, ac i brofi godidawgrwydd y Cydymmaith *yr hyn y mae hi yn ei ganmol, mi a fentybgciais o honaw y cyfryw weddiau ac a waſanaethant i ni i'w harfer ymhob cyſtwr pa'r un bynnag ai cyffredinol ai priodol; ac au dygais i'r cyfryw drefn, a llwybreiddrwydd, fal y gwaſanaethant yn dra-hawdd i ni i'w harfer am ein gwaſanaeth beunyddiol a'n deſoſiwnau anghyfredinol hefyd.*

Y Caſcliad o ganlyn gan hynny a luniwyd i'w

arfer

gennym ddwy ffordd: yn gyntaf yn y ty, pan fo yr holl deulu gwedi eu galw ynghyd, i offrwm i fynu eu cyd-weddiau, ac i hyſpyſu eu herfyniau cyffredin i Ddduw, ac yn ail yn y Stafell pan ymneullduo un dyn ar ei ben ei hun yn y dirgel, i dywallt allan ei enaid ger ei fron ef,

Mai ddyledſwydd ddiball pob Meiſtr neu Ben teulu y'w ymegnio fod i bob enaid o fewn ei dy gael ei gyflenwi a Duwioldeb, a'i faethu a phob daioni, nid rhaid i mi arfer llawer o reſymmeu i brofi hyn, O ran os yw efe yn waeth na'r di ffydd (megis y cyhoeddodd yr Apoſtl ei fod ef. Tim. 5. 8.) yr hwy ni ddarpara i'w deulu bethau amſerol, gan hynny beth yw ef ni ddarpara iddynt bethau yſprydol? A pha fodd y geill neb obeithio wneud hyn yn fwy effeithiol, na thrwy eu rhwymo hwy i fod yn ddyfal yn y cyfryw ddefoſiwnau nefol?

Ac fel y byddei i mi dreſnu iddynt felly ddefoſiwnau cymmwys, 'fe ddarfu i mi yn y lle cyntaf gyfanſoddi tri gwaſanaeth neullduol tra-chymmwys i'r tri amſeroedd hynny (ſef y Boreu, Canol dydd, a'r nos) pa rai, megis y tyſtiolaetha gair Duw ei hun yn helaeth, a arferwyd gan lawer o'n duwiol Flaenoriaid yn y Ffydd, ac a gedwir etto ar eu hol hwy (ni a gredwn) gan lawer o ddynion defoſionol yn yr oes hon, er ei bod yn oes (mewn gwirionedd o'r cyfryw rydid cyffredinol, ac anghreſydd. Ond am y ſawl ni chaniadha eu hachoſion iddynt, weddio mor fynych bydded iddynt ymegnio o'r hyn lleiaf weled cyflawni y ddyledſwydd hon y Boreu a'r Nos. O ran cyn fynyched a hyn yn ddiau fe ddylei Ddduw gael ei addoli ymhob teulu Criſtianogol:

ac nid allwn yn gyfion nageau iddo ein gwaſanaeth cyntaf, a'n diwaethaf, yr hwn yw, yn wir y cyntaf a'r diwaethaf.

Ac nid eill ſod achos i un Pennaeth ty ſeddwl y treulia ormod o'i amſer, gan y gall gyflawni yn ddledus y tri gwaſanaeth mewn llai nag yſpaid un awr. A pha fath ddyn yw efe yr hwn ni rydd cyn lleied cyfran o'i amſer, i'r Arglwydd nef a daiar, pan gredo efe fod yn gyfion ac yn rheſymmol iddo ef ofyn gwaſanaeth cynnifer o oriau bob dydd gan eu weinidogion ei hun?

Nid oes gennyf ond un peth ychwaneg i gynghori iddo yn y perthynas hwn, pa un yw bod iddo orchymmyn pawb o'i deulu gyda phob gwylder goſtyngedig i ddywedyd Amen, ar ol pob un o'r gweddiau hyn. O ran trwy y modd hwn efe nid yn unig a rwyſtra iddynt gyſcu ymmaith eu dyledſwydd, ac a'u ceidw hwy yn wiliadwrus ynthi; ond a bar iddynt roi rhyw dyſtiolaeth hefyd o'r taer ewyllys hwnnw, o'r cyflawn ſiccrwydd ac o'r cynghanedd melus hwnnw, a'r cydſynniad y ddylei gyd-fyned a'n herfynion at Ddaw.

Heb law y tri gwaſanaeth hyn'fe ddarfu i mi hefyd gynnull amryw ddefoſiwnau achoſawl *Ac i ba ddibennion neullduol y gwaſanaetha y rhai'ny Cynnhwyſiad a ddengys.*

Nid oes gennyf ond un peth i'w chwanegu ynghylch y Gweddiau hyn, yr hyn y'w, eu bod nid yn unig mor helaeth ac eglur, yn ar ddangos, ac yn hyſpyſu ein hangeurheidiau cyffredinol cyſtal ac un Efurfo weddi pa fath bynnag; ond hefyd yr haeddant gymmaint prîs a chyfri o herwydd eu hawdurdod, gan mai geiriau yr Eglwys honno ydynt, ſydd fwyag gogoneddus a pherffaith o'r holl Eglwyſi Proteſtanaidd: *a bod gennym ddirfawr achos i gredu y bodlonir Duw (yr hwn mor fynych a ymddiffynnodd yr Eglwys hon, ac a'i gwaredodd mor rhyfeddol) hefyd a'i defoſiwnau duwiol hi, y rhai a offrwm i fynu iddo ef yn unig yn enw ei* Anwyl Fâb, *yn yr hwn, yr hyſpyſodd,*

y Bodlonir ef. Y

Gweddiau am { y Boreu. Tydalen 1.
Ganol dydd. d. 13
y Nos. d. 20

Gweddiau i'w dywedyd { Ar dyddiau ympryd a gostyngeiddrwydd. d. 31.
Yn amser trallod a blinderau. d. 40

Gweddiau { Tros y Claf. d. 45
Tros y Claf, lle na weler fawr obaith o'i wellhad. d. 51
Tros blentyn Claf. d. 51
Tros rai a so mewn blinder yspryd neu gyawybod. d. 58

Gweddiau i'w dywedyd { Cyn yr eloch i'r Eglwys. 61
Pan ddeloch i'r Eglwys d. 63
Pan ddeloch allan o'r Eglwys. d. 64

Gweddiau ar dyddiau Sacrament i'w aywedyd { Y Boreu, cyn yr eloch allan o'ch ty. d. 65
Yn yr Eglwys, pan foch gyntaf yn parottoi tuagat y Sacrament. d. 68
Tra fydder yn gweini y Sacrament. d. 70

Myfyrdodau Duwiol allan or Llechres o Bechodau. Pfal. d. 83 d. 96

Y

LIYFR GWEDDI GYFFREDIN

Y Cydymmaith Gorau.

BOREUOL-WEDDI

Pſalm 65. 2. 1 Bren. 8. 28.

Ti yr hwn a wrandewi weddi, attat ti y daw pob cnawd: edrych ar weddi dy wâs, ac ar ei ddeiſyfiad eſ, o Arglwydd ſy Nuw, i wrando ar y lleſ a'r weddi y mae dy wâs yn ei weddio heddyw ger dy fron di.

HOll-alluog Duw a thrugarogcaſ Dâd, Ni a aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di, fel defaid ar gyfrgoll; Nyni a ddilynaſom ormod ar amcanion, a chwantau ein calonnau ein hunain: Nyni a wnaethom yn erbyn dy ſancteiddiol gyfreithiau. Nyni adawſom heb wneuthud y pethau a ddyleſym eu gwneuthur; ac a wnaethom y pethau ni ddyleſym eu gwneuthur; Ac nid oes iechyd ynom. Eithr tydi o Arglwydd, cymmer drugâredd arnom ddrwg weithred-wŷr truain, Arbet ti hwynthwŷ, o Dduw, y rhai ſy'n cyffeſſu eu beiau; Cyweiria di y ſawl ſydd yn edifarus. Yn ol dy addewidion a yſpyſſwyd i ddŷn, yng Hriſt Jeſu ein Harglwydd A chaniatta drugaroccaf Dad er ei fwyn eſ, Fyw o honom rhag llaw, mewn duwiol, union, a ſobr fuchedd, i ogoniant dy ſancteiddiol enw. *Amen.*

HOll gyfoethog a thragwyddol Dduw, yr hwn ni chaſhei ddim ar a wnaethoſt, ac a Faddeu i bechodau pawb y ſy edifeiriol; crea a gwna ynom ocwydd a drylliedig galonnau; fel y bo i ni gan ddyledus

ddoluriaw am ein pechodau, a chyfaddef ein trueni allu caffel gennit, Dduw yr holl drugaredd gwbl faddeuant gollyngdod, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, attolygwn i ti ollwng dy bobl oddiwrth eu camweddau, fel y byddom trwy dy ddawnus drugaredd ryddion oddiwrth rwymedigaethau ein holl bechodau, y rhai drwy ein cnawdol freuolder a wnaethom: caniadha hyn er cariad ar Jeſu Griſt ein Harglwydd bendigedig, a'n iachawdr: *Amen.*

CAniadha, ni attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, fod i ni y rhai a haeddaſom gael ein poeni am ein drwg weithredoedd, trwy gonſtordd dy râd di, allu yn drugarog gael hawſhâd, trwy ein Harglwydd a'n iachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

DUw, yr hwn a wyddoſt ein bod ni wedi ein goſod mewn cymmaint a chynnifer o berygl on ac nas gallwn o herwydd gwendid dynol, ſefyll bob amſer yn uniawn: caniadhâ i ni y cyfryw dy nerth a'th nodded i'n cymmorth ymhob perygl, ac i'n harwin trwy bob profedigaeth, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

OArglwydd, ni attolygwn i ti ganiadhâu i'th bobl râd i wrthladd profedigaethau y byd, y cnawd, a'i cythrael, ac a phûr galon a meddwl i'th ddilyn di yr unig Dduw trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Arglwydd, a bŷth-ſywiol Dduw, ni a attolygwn i ti fôd yn wiw gennit uniawni, ſancteiddio, a llywodraethu ein calonnau a'n

cyrph,

cyrph, yn ffyrdd dy ddeddfau. ac yngweithredoedd dy orchymynion, megis trwy dy gadarnaf nodded yma ac yn dragywyddol, y gallom fod yn gadwedig gorph, ac enaid trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jesu Grist. *Amen.*

RHagflaena ni; o Arglwydd, yn ein hôll weithredoedd, a'th radlonaf hoffder, a rhwydda ni a'th barhaus gymmorth, fel yn ein holl weithredoedd dechreuedig, annherfynedig a therfynedig ynot ti y gallom foliannu dy ſanctaidd enw, ac yn y diwedd gael gan dy drugaredd fywyd tragywyddol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

OArglwydd nefol Dâd, Holl-alluog, a thragywyddol Dduw, yr hwn a'n cedwaiſt yn ddiangol hyd ddechreu 'r dydd heddyw, amddiffyn nyni ynddo a'th gadarn allu, a chaniadha na ſyrthiom y dydd hwn mewn un pechod, ac nad elom mewn neb rhyw berygl, eithr bod ein holl weithredoedd wedi eu treſnu a'u llywiaw wrth dy lywodraeth i wneuthur yn waſtad y peth ſydd gyfiawn yn dy olwg di, trwy Jeſu Grist ein Harglwydd. *Amen*

OArglwydd, yr hwn ni phelli bŷth gynnorthwyo, a llywodraethu y rhai yr ydwyt yn eu meithrin yn dy ddilys ofn a'th gariad, cadw ni, ni attolygwn i ti dan dy ddarbodus nodded, a phaid i ni yn ddibaid ofni a charu dy enw bendigedig, trwy Jeſu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ODduw, yr hwn trwy dy ddiball ragluniaeth wyt yn llywodraethu pôb peth yn y nef a'r ddaiar, yn ufudd ni a attolygwn i ti ſwrw oddi wrthym pob peth niweidiol, a rhoddi o honot i ni

bob peth a fyddo dâ ar ein llês trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, ni attolygwn i ti, gadw dy deulu yr Eglwys mewn duwiolder gwastadol, fel y bo trwy dy nodded ti, iddi gael ei gwaredu oddiwrth bob gwrthwyneb, ac yn ddefosionol ymroi i'th wasanaethu di mewn gweithredoedd dâ, er ogoniant i'th enw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, trwy Yspryd pa un y llywodraethir ac y sancteiddir holl gorph yr Eglwys, derbyn ein erfynion a'n gweddiau y rhai yr ydym ni yn eu hoffrwm ger dy fron di, dros bob gradd o ddynion yn dy sanctaidd Eglwys, fel y bo i bob aelod o honi yn ei alwedigaeth a'i wasanaeth, allu yn gywir, ac yn dduwiol dy wasanaethu di, trwy ein Harglwydd a'n Jachawdwr Jesu Grist. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn sydd a'i deyrnas yn dragywyddol, a'i allu yn anfeidrol, cymmer drugaredd ar yr holl Eglwys, a rheola selly galon dy ddewisedig wasanaethyddes ANN ein Brenhines, a'n llywyddes, fel y gallo hi (gan wybod i bwy y mae yn weinidog) uwchlaw pob dim geisio dy anrhydedd â'th ogoniant: ac fel y gallom ninneu a'i holl ddeiliaid hi (gan seddylied yn ddyledus oddiwrth bwy y mae yr awdurod sydd iddi) yn ffyddlon eu gwasanaethu, a'u hanrhydeddu, ac yn oftyngedig ufuddhau iddi, ynot ti ac erot ti, yn ol dy sendigedig air a'th ordinhâd, trwy Jesu Grist ein Harglwydd, yr hwn gyda thi a'r Yspryd glân, sydd yn byw, ac yn teyrnasu yn dragwydd yn un Duw, heb drangc na gorphen *Amen.*

O Arglwydd ein Duw yr hwn wyt yn cynn
ac yn rheoli pob peth yn y Nef a'r ddaia
derbyn ein hufudd weddiau, a'n ffyddlonaf ddiol
dros ein Goruchaf Arglwyddes *ANNE*; yr ho
megis ar y dydd heddyw, a oſodwyd droſom drw
dy rad a'th Ragluniaeth, i fod yn Frenhines i ni
ac heblaw hi, bendithia y Dywyſoges *Sophia* a'r ho
Frenhinawl Deulu, fel a hwy holl yn ŷmddirie
byth yn dy ddaioni di, dan gael amddiffyn drw
dy nerth a'u coroni a'th raſlawn a'th ddi-derfyno
ſtafr, a gallont fwy o'th ſtaen di, mewn iechyd
Heddwch, Llawenydd, ac Anrhydedd: hir a dedwy
ddol, ſywyd ar y ddaiar: ac ynol marwolaet
mwynhau bywŷd a gogoniant tragywyddol y
nheyrnas Nef: drwy haeddedigaethau a Chyfryng
iad Criſt Jeſu ein Iachawdwr, yr hwn gyda'r Ta
a'r Yſpryd glan ſydd yn byw ac yn teyrnaſu byt
yn un Duw, yn oes oeſoedd. *Amen.*

O Dduw graſuſaf, yn ufudd attolygwn i t
megis tros y Deyrnas hon yn gyffredinol, fe
lly yn enwedig tros yr uchel Lŷs Parliament y
gynnulledig yr awr ho[illegible]tan ein duwiolaf a'n gra
ſuſaf Arglwyddes Frenhines; Teilyngu o honot ly
ſodraethu a llwyddo ei holl ymgynghoriadau
derchafiad i'th ogoniant, er daioni i'th Eglwy
ac er diogelweh, anrhydedd a llwyddiant i'n Ha
glwyddes Frenhines a'i theyrnaſoedd; trwy
llafur hwy felly trefner a gwaſtadtaer pob peth ar
ſail oreu a chadarnaf, fel a bo Heddwch a Dedwy
ddwch, Gwirionedd a Chyfiawnder, ffydd a Du
wioldeb yn ſefydlog yn ein plith trwy'r holl Gen
hedlaethau hyn, a phob peth arall angenrhaid idd
ynt hwy, i ni, ac i'th Eglwys oll, yr ŷm yn oſtyn
gedig yn ei herfyn, yn enw a chyfryngdod Jeſ
Criſt ein Harglwydd, a'n Iachawdr bendigedi
Amen.

n Jachawdwr bendigedig *Amen.*

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn daionus, yr hwn o'th Dduwiol ddarbodaeth a odaiſt amrafael Raddau yn dy Eglwys, ni attolygyn yn ufudd i ti, roddi o'th râs i'r ſawl oll a alver i bob ſwydd a Gweinyddiaeth yn yr unrhyw; yn enwedig i'r rheini a oſodaiſt i fod yn Flaenoiaid yſprydol ac Athrawon i ni) ac felly cynyſcadda hwy a diniweidrwydd buchedd, fel y gwaſaethont yn ffyddlon ger dy fron, i ogoniant dy dirfawr enw, ac er lles i'th Eglwys ſanctaidd, rwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog, a byth-fywiol Dduw, yr hwn wyt yn peri i ni ewyllyſio, a gwneuthur yn yn ſydd ddâ ac yn gymmeradwy gan dy fawredd r ydym yn gwneuthur ein goſtyngedig erfynion ttat dros y rheini oll a wnaethont ddaioni i ni, ein yſeielion, cyſneſliaid, a'n gelynion hefyd. Bydded y Dadol law, ni a attolygwn i ti, byth arnynt ydded dy Yſpryd glân byth gyda hwy, ac felly ywys hwy yngwybodaeth ac ufudd-dod dy air, nodd y gallont yn y diwedd fwynhau bywyd ragywyddol, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr nwn gyda thi a'r Yſpryd glan, ſydd yn byw ac yn eyrnaſu yn un Duw, heb drangc na gorphen. Amen.

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i bawb ſy ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd, er eu dwyn i ffordd cyfiawnder, caniadhâ i bawb a dderbynier i gymdeithas crefydd Griſt, allu o honynt ymogelyd y cyfryw bethau ac y ſydd wrthwyneb i'w proffeſs, a chanlyn y ſawl bethau oll ac y ſyddo yn cydtuno a'r unrhyw, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt. *Amen.*

HOll-alluog Ddw. Tâd y trugareddau, yddym ni dy weision annheilwng yn rhoddi i ti ddiolch goſtyngeiddiaf a ffyddlonaf a'm dy holl ddaioni a'th drugareddau i ni ac i bob dŷn. Ni a'th fendithiwn a'm ein creadigaeth, a'm ein cadwraeth, ac am holl fendithion y bywyd hwn. Eithr uwchlaw pob dim a'm dŷ anfeidrol gariad ym mhrinedigaeth y bŷd trwy ein Harglwyddd Jeſu Griſt, am y moddion o râs ac am obaith gogoniant. Ac ni attolygwn i ti roddi i ni y cyfryw ddwys ac iawn ymſynniad ar dy holl drugareddau, fel y bo ein calonnau yn ddifuant yn ddiolchgar. ac fel y mynegom di foliant, nid a'n gwefuſau yn unig eithr yn ein bucheddau trwy ymroddi i'th waſanaeth. a thrwy rodio ger dy fron mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb tros ein holl ddyddiau, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd, i'r hwn gyda thydi a'r Yſpryd glan bid yr holl anrhŷdedd a'r gogoniant byth byth oedd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol dad yddym ni yn oftyngedig yn diolch i ti fod yn wiw gennit ein galw i wybodaeth dŷ ras, a ffydd ynot; dyro i ni dy Yſpryd glan, fel y ganer ni eilwaeth, ac ein gwneler yn etifeddion iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyda thi, a'r Yſpryd glan, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

HOll-alluog *Dduw*, yddym yn rhoddi i ti oſtyngedig ddiolch, a'm rynga bodd i ti ein gwared *oddiwrth beryglon ac enbydrwydd y nos aeth heibio*: ac ni attolygwn i ti ganiadhau, druga rog caſ Dad, allu o honom drwy dy gynnorthwy di ſyw yn ffyddlawn, a rhodio yn ol dy ewyllys di yn y ſuchedd breſennol hon, a hefyd bod yn gyfrannogion

on o'r ogoniant tragywyddol yn y fuchedd á ddaw wy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt i ni rad y pryd hyn, drwy gyfundeb a chyd-gyfarch weddio arnat; ac wyt yn addo pan gmgynnullo au neu dri yn dy enw, bôd i ti ganiadhau eu go- ynion: cyflawna yr awr hon, o Arglwydd, ddy- uniad a deiſyfiad dy weiſion, fel y bo mwyaf uddiol iddynt, gan ganiadhau i ni yn y byd hwn vybodaeth am dy wirionedd, ac yn y byd y ddaw, ywyd tragywyddol. *Amen.*

EIn Tad yr hwn wyt yn y nefoedd; ſanctteiddier dy enw Deuet dy deyrnas. Bîd dy ewyllys ar ddaiar, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni eddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein yledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac ac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag rwg: Canys eiddot ti yw'r Deyrnas a'r gallu, a'r ogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Rhad ein Harglwydd Jeſu Griſt, a ſerch Duw, a hymdeithas yr Yſpryd glan, a fyddo gyda ni oll yth bythoedd. *Amen.*

Gweddiau i'w harferu ganol dydd.

Pſal. 55. 18.

Hwyr, a bôreu, a hanner dydd y gweddiaſ, y byddaf dda- er ac eſe a glyw fy lleſerydd.

DUw, yr hwn a wyddoſt ein bod ni wedi ein goſod mewn cymmaint a chynnifer o beryg- on, ac na allwn o herwydd gwendid dynol, ſef-

yll bôb amſer yn uniawn: caniadha i ni y cyfry
dy nerth a'th nodded i'n cymmorth, ymhôb peryg
ac i'n harwain trwy bôb profedigaeth, trwy Je
Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

DUw, yr hwn wyt wîr nerth i bawb oll ac
ſy yn ymddiried ynot, yn drugarog derby
ein gweddiau: a chan na ddichon gwendid ein ma
wol anian wneuthur dim da hebot ti, caniadha
ni gymmorth dy rad, fel y bo i ni gan gadw d
orchymynion, ryngu bodd i ti ar ewyllys a gwe
thred; trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

DUw, yr hwn a arlwyaiſt i'r rhai a'th gara
gyfryw bethau daionus ac y ſydd uwch b
pob deall dyn, tywallt i'n calonnau gyfryw ſer
arnat, fel y byddo i ni gan dy garu uwchlaw p
dim, allu mwynhau dy addewidion, y rhai ſy fw
rhagorol na dim a fedrom ni ei ddeiſyf; trwy Je
Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hw
wyt Awdwr a rhoddwr pob daioni, plan
yn ein calonnau gariad dy enw, ychwanega yno
wir grefydd, maetha nyni a phob daioni, ac o'
fawr drugaredd, cadw ni yn yr unrhyw, trwy Je
Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, dyro i
inghwaneg o ffydd, gobaith, a chariad perffait
ac fel y gallom gael yr hyn yr wyt yn ei add
gwna i ni garu yr hyn yr wyt yn ei orchymy
trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CAdw, attolygwn i ti Arglwydd, dy Eglw
a'th dragywyddol drugaredd: a chan na d
eh

on gwendid dŷn hebot ti onid ſyrthio, cadw ni yth trwy dy borth oddiwrth bob peth niweidiol, arwain ni at bob peth buddiol i'n hiech ydwria-h, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen*

ARglwydd, ni attolygwn i ti, gadw dy deulu yr Eglwys mewn duwioldeb gwaſtadol; fel bo trwy dy nodded ti, iddi gael ei gwaredu oddwrth bob gwrthwyneb, ac yn ddefofionol ymroi h waſanaethu dy mewn gweithredoedd dâ, er gouiant i'th enw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwd. *Amen.*

MAwr ddiolchwn i ti drugaroccaf Dâd, rŷngu bodd it ein had-eni âth Yſpryd glân, a'n byn yn blant i ti dy hun trwy fabwys, a'n coori i'th lân eglwys; ac yn oſtyngedig yr attolygi ti ganiadhâu, gan ein bod ni yn feiſw i bech- ac yn fyw i gyfiawnder, ac yn gladdedig gydâ iſt yn ei angeu, allu croeſhoelio yr hên ddyn, ac hollawl ymwrthod a holl gorph pechod: ac meyddym gwedi ein gwneuthur yn gyfrannogion angeu dy Fâb, ein bôd hefyd yn gyfrannogion gyfodiad; ac felly o'r diwedd, ynghyd a'r rhan ll o'th lân Eglwys bôd o honom yn etiſeddion deyrnas dragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harwydd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn trwy dy ſanctaidd Apoſtl a'n dyſcaiſt i wneur gweddiau ac erfyniau, i ddiolch dros bob dyn; ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti yn druoccaf dderbŷn ein gweddiau hyn, y rhai 'r ydyn eu hoffrwm i'th dduwiol fawredd, gan atygu i ti yſprydoli yn waſtad yr Eglwys gyffredl ag yſpryd y gwirionedd, undeb, a chydgordio;

gordio a chaniadha i bawb ac ſy yn cyffeſſu dy enw ſanctaiddiol, gydtuno yngwirionedd dy ſanctaidd air, a byw mewn undeb, a duwiol gariad. Ni attolygwn i ti hefyd gadw, ac ymddiffyn holl Gristianus Frenhinoedd, Tywyſogion a Llywiawdwyr, ac yn enwedig ly waſanaethyddes ANNE ein Brenhines fel y caſom tani hi ein llywodraethu yn dduwiol ac yn heddychol: a chaniadha i'w holl Gyngor hi, ac i bawb ag ſydd wedi eu goſod mewn awdurdod dani, allu yn gywir, a yn uniawn rannu cyfiawnder, er coſpi drygioni a phechod, ac er maentumio dy wir grefydd di, a rhinwedd ddâ, Dyro râd, Nefol Dâd, i'r holl Eſcobion, a Churadiaid fel y gallont drwy eu buchedd a'u hathrawiaeth oſſod allan dy wir a'th fywiol air, a gwaſanaethu dy ſanctaidd ſacramentau yn iawn ac yn ddyladwy: a dyro i'th holl bobl dy nefawl rad, ac yn enwedig i'r gynnulleidfa hon ſydd yma yngydrychiol, fel y gallont ag nfudd galon dyledus barch wrando a derbyn dy ſanctaidd air gan dy waſanaethu yn gywir mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb holl ddyddiau eu bywyd. A yr ym yn oſtyngedig yn attolygu i ti o'th ddaioni Arglwydd gonfforddio a nerthu pawb ag ſy yn y bywyd trangcedig hwn, mewn trwbl, triſtwch angen, clefyd, neu ryw wrthwyneb arall. Ac yn ym ni hefyd yn bendithio dy enw ſanctaidd, o ran dy weiſion a ymadawſant a'r bywyd yma yn dy ffydd di a'th ofn: gan attolygu i ti, roddi i ni râs felly i ddilyn eu enſamplau da hwy, fel gyd hwynt y gallom fod yn gyfrannogion o'th deyrnas nefol; caniadha hyn, o Dâd, er cariad ar Jeſu Grift ein hunig Gyfryngwr a'n Dadleu-wr. *Amen.*

O Drugarog Dduw, yr hwn a wnaethoſt bob dyn, ac ni chaſhei ddim a'r a wnaethoſt, ac ni fynnit farwolaeth pechadur, onid yn hytrach ymchwelyd o honaw a byw; trugarha wrth yr holl ddewon, Twrciaid, Anffyddlonion, a Hereticiaid, a chymmer oddiwrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon a thremyg ar dy air, ac felly dwg hwynt adref, wynſydedig Arglwydd, at dy braidd, fel y bont gadwedig ym-mhlith gweddillion y gwir Iſraeliaid, a bod yn un gorlan, dan yr un bugail Jeſu Griſt ein barglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyda thydi a'r Yſpryd glân, un *Duw*, heb drangc na gorphen. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i bawb ſy' ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd er cu dwyn i ffordd cyfiawnder, caniadha i bawb a dderbynier i gymdeithas crefydd Griſt, allu o honynt ymogelyd y cyfryw bethau ag y ſydd wrthwyneb i'w proffeſs, a chanlyn y ſawl bethau oll ac a fyddo yn cydtuno a'r unrhyw, trwy ein Harglwydd Jeſu Griſt. *Amen.*

O Dduw, gan na allwn ni hebot ti ryngu bodd i ti, o'th drugaredd caniadha fod i'th lân Yſpryd ymhob peth uniawni a llywiaw ein calonnau, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn a addewaiſt wrando eirchion y rhai a ofynnant yn enw dy Fâb ni a attolygwn i ti oſtwng yn drugarog dy gluſtiau attom ni, y rhai a wnaethom yr awr hon ein gweddiau a'n erfynion attat, a chaniadha am y pethau hyn a archaſom yn ffyddlawn yn ôl dy ewyllys, allu o honom eu caffael yn hollawl, i borthi ein hangen, ac er eglurhau dy ogoniant, trwy

Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

EIn Tâd, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar, megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A madden i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg; Canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oesoedd. *Amen.*

TAngneddyf Dduw yr hwn sydd uwchlaw pob deall, a gadwo eich calonnau a'ch meddyliau yngwybodeth a chariad Duw, a'i Fâb Jesu Grist ein Harglwydd. A Bendith Dduw holl-alluog, y Tâd, y Mâb, a'r Yspryd glân, a fyddo i'ch plith, ac a drigo gyda chwi yn wastad. *Amen.*

Gweddiau am y Nos.

Psalm 141. 1, 2.

'Arglwydd yr *wyf yn gwaeddi arnat brysia attaf: clyw fy llais, pan lefwyf arnat. Cyfeirier fy ngweddi ger dy fron fel arogldarth, a derchafiad fy nwylaw fel yr offrwm prydnhawnol.*

HOll-alluog Dduw, a thrugaroccaf Dad, Ni aethom ar gyfeiliorn allan o'th ffyrdd di, fel defaid ar gyfrgoll; Nyni a ddilynasom ormod ar amcanion, a chwantau ein calonnau ein hunain: Nyni a wnaethom yn erbyn dy sancteiddiol gyfreithiau: Nyni addawsom heb wneuthud y pethau, a ddylesym eu gwneuthur, Ac a wnaethom y

pethau

ni ddyleſym eu gwneuthur; Ac nid oes irchyd ynom, Eithr tydi o Arglwydd cymmer drugaredd arnom ddrwg weithred wyr truain, Arbet ti hwynthwy, o Dduw, y rhai ſy 'yn cyffeſſu eu beiau; Cyweiria di y ſawl ſydd yn edifarus: yn ôl dy addewidion a hyſpyſlwyd i ddyn yng-Hriſt Ieſu ein Harglwydd. A chaniadha drugaroccaf Dad er ei fwyn ef, fwy o honom rhag llaw mewn duwiol, union a ſobr fuchedd, i ogoniant dy ſancteiddiol enw. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn ni chaſhei ddim a'r y wnaethoſt, ac a faddeui bechodau pawb y ſy'ediſeiriol, crêa a gwna ynom newydd a drylliedig galonnau; fel y bo i ni gan ddyledus ddoluriau am ein pechodau, a chyſaddef ein trueni, allu caffael gennit, Duw yr holl drugaredd, gwbl faddeuant a gollyngdod, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, attolygwn i ti ollwng dy bobl oddiwrth eu camweddau, fel y byddom trwy dy ddawnus drugaredd ryddion oddiwrth rwymedigaethau ein holl bechodau, y rhai drwy ein cnawdol freuolder a wnaethom: caniadha hyn er cariad ar Ieſu Griſt ein Harglwydd bendigedig a'n Jachawdwr. *Amen.*

O Drugarog Arglwydd, ni attolygwn i ti ganiadhau i'th ffyddlawn bobl faddeuant a thangneddyf, fel y glanhaer hwynt oddiwrth eu oll bechodau, ag y gwaſanaethont ti a meddwl heddychol, trwy Ieſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CAniâdha, ni attolygwn i ti holl-alluog Arglwydd, fod i ni y rhai a haeddaſom gael ein po-

potni am ein drŵg weithredoedd, trwy gonfforddy rad di, allu yn drugarog gael hawſhad, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jeſu Griſt. *Amen*

DUw, oddiwrth ba un y daw pob adduned ſanctaidd, pob cyngor da, a phob gweithred gyfiawn, dyro i'th waſanaeth ddynion y rhyw dangneddyf a'r na ddichon y byd ei roddi; modd y gallo ein calonnau ymroi i ufuddhau i'th orchymynion; a thrwy dy amddiffynniad i ni rhag ofn ein gelynion, allu o honom dreulio ein hamſer mewn heddwch a thangneddyf, drwy haeddigaethau Jeſu Griſt ein Jachawdwr. *Amen.*

Goleua ein tywyllwch, ni attolygwn i ti o Arglwydd; a thrwy dy fawr drugaredd, amddifyn nyni rhag pob perygl ac enbydrwydd y nos hon, er ſerch ar dy un Mab ein Jachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn gweled nad oes gennym ddim meddiant o'n nerth ein hunain i'n cymmorth ein hunain, cadw di ni oddifewn ac oddi allan, ſef enaid a chorph; fel yr amddiffynner ni rhag pob gwrthwyneb a ddigwyddo i'r corph, a rhag pob drwg feddwl a wna niwed na chynnwrf i'r enaid, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ODduw, nodd wr pawb oll y ſydd yn ymddiried ynot, heb ba un nid oes dim nerthawg, na dim ſanctaidd, chwanega ac amlha arnom dy drugaredd fel y gallom (a thi yn Llywyawdr ac yn Dywyſog i ni) dreiddio drwy'r pethau bydol, modd na chollom yn llwyr y pethau tragywyddol: canladha hyn, Nefol Dad, er mwyn Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O

O Duw, yr hwn trwy dy ddiball raglunieth wyt yn llywodraethu pob peth yn y Nef a'r ddaiar; yn ufudd ni attolygwn i ti fwrw oddiwrthym bob peth niweidiol, a rhoddi o honot i ni bob peth a fyddo da ar ein lles, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll gyfoethog a thrugarog Dduw, o'th ragorol ddaioni cadw ni, ni attolygwn i ti, rhag pob peth a'n dryga, fel y byddom yn barod yn enaid a chorph i allu a chalonnau rhyddion gyflawni y cyfryw bethau a fynnit ti eu gwneuthur, trwy y Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

CAniadhâ. Arglwydd, ni a attolygwn i ti, fod ic hŵyl y byd hwn, trwy dy reoledigaeth di, gael ei dreſnu mor dangneddyfol ac y gallo dy Eglwys dy wasanaethu yn llawen ymhôb duwiol heddwch, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, trwy yſpryd pa un y llywodraethir ac y ſanctteiddir holl gorph yr Eglwys, derbyn ein erfynion a'n gweddiau, y rhai yr ydym ni yn eu hoffrwm ger dy fron dy dros bob gradd o ddynion yn dy ſanctaidd Eglwys, fel y bo i bob aelod o honi yn ei alwedigaeth a'i wasanaeth, allu yn gywir, ac yn dduwiol dy wasanaethu di, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr *Jesu* Grist. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, ſe'n dyſcir gan dy air ſanctaidd fod calonnau Brenhinoedd wrth dy reolaeth a'th lywodraeth di, a'th fod ti yn eu gosod hwynt ac yn eu hymchwelyd, fel y mae dy Dduwiol ddoethineb yn gweled bod yn oreu: yr ydym ni yn oſtyngedig yn attolwg i ti

felly

felly oſod a llywodraethu calon ANNE dy wasanaethyddes, ein Brenhines a'n llywyddes fel y gallo hi yn ei holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd, yn waſtad geiſio dy anrhydedd di, a'th ogoniant, a myfyrio ar gadw dy bobl a rodded yn ei chadwraeth hi, mewn digonoldeb, tangneddyf, a duwioldeb; caniadha hyn drugarog Dad, er cariad ar dy anwyl Fab Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O Arglwydd ein Duw yr hwn wyt yn cynnal ac yn rheoli pob peth yn y Nef a'r ddaiar, derbyn ein hufudd weddiau, a'n ffyddlonaf ddioleh dros ein Goruchaf Arglwyddes *ANNE*; yr hon megis ar y dydd heddyw, a oſodwyd droſom drwy dy rad a'th Ragluniaeth, i fod yn Frenhines i ni: ac heblaw hi, benditbia y Dywyſoges *Saphia* a'r holl Frenhinawl Deulu, fel a hwy holl yn ŷmddiried byth yn dy ddaioni di, dan gael amddiffyn drwy dy nerth a'u coroni a'th raſlawn a'th ddi-derfynol ſtafr, a gallont fwy o'th ſiaen di, mewn iechyd, Heddwch, Llawenydd, ac Anrhydedd: hir a dedwyddol, fywyd ar y ddaiar: ac ynol marwolaeth mwynhau bywŷd a gogoniant tragywyddol yn nheyrnas Nef: drwy haeddedigaethau a Chyfrŷngiad Criſt Jeſu ein Iachawdwr, yr hwn gyda'r Tad a r Yſpryd glan ſydd yn byw ac yn teyrnaſu byth yn un Duw, yn oes oeſoedd. *Amen.*

O Dduw graſuſaf, yn ufudd attolygwn i ti, megis tros y Deyrnas hon yn gyffredinol, felly yn enwedig tros yr uchel Lŷs Parliament yn gynnulledig yr awr hon, tan ein duwiolaf a'n graſuſaf Arglwyddes Frenhines; Teilŷngu o honot lyſodraethu a llwyddo ei holl ymgynghoriadau er derchafiad i'th ogoniant, er daioni i'th Eglwys, ac er diogelwch, anrhydedd a llwyddiant i'n Harglwyddes

glwyddes Frenhines a'i theyrnaſoedd; trwy eu llafur hwy felly trefner a gwaſtadtaer pob peth ar y ſail oreu a chadarnaf, fel a bo Heddwch a Dedwyddwch, Gwirioned a Chyfiawnder, ffydd a Duwioldeb yn ſefydlog yn ein plith trwy'r holl Genhedlaethau hyn, a phob peth arall angenrhaid iddynt hwy, i ni, ac i'th Eglwys oll, yr ŷm yn oſtyngedig yn ei herfyn, yn enw a chyfryngdod Jeſu Grift ein Harglwydd, a'n Iachawdr bendigedig. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, rhoddwr pob dawn daionus, yr hwn o'th Dduwiol ddarbodaeth a oſodaiſt amrafel raddau yn dy Eglwys, ni attolygwn yn ufudd i ti, roddi o'th ras i'r ſawl oll a alwer i bob ſwydd a Gweinyddiaeth yn yr unrhyw; (*yn enwedig i'r rheini a roddaiſt i ſod yn Flaenoriaid yſprydol ac Athrawon i ni*) ac felly cyflawna hwynt a diniweidrwydd buchedd, fel y gwaſanaethont yn ffyddlon ger dy fron, i ogoniant dy ddirfawr enw, ac er lles i'th Eglwys ſanctaidd, trwy Jeſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr hwn wyt yn peri i ni ewyllyſio, a gwneuthur yr hyn ſydd dda ac yn gymmeradwy gan dy fawredd; yr ydym yn gwneuthur ein goſtyngedig erfynion attat dros ein cynnorthwywyr, ceraint, cyfeillion, ie tros ein holl elynion hefyd. Bydded dy Dadol law, ni attolygwn i ti, byth arnynt; bydded dy Yſpryd glan byth gyda hwy, ac felly tywys hwy yngwybodaeth dy air, modd y gallont yn y diwedd, fwynhau bywyd tragywyddol trwy ein Harglwydd Jeſu Grift, yr hwn gyda thi, a'r yſpryd glan ſydd yn byw ac yn teyrnaſu yn un Duw, heb drangc na gorphen, *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i bawb ſy' ar gyfeiliorn lewyrch dy wirionedd,

er

eu dwyn i ffordd cyfiawnder, caniadha i bawb a dderbynier i gymdeithas creſydd Grift, allu o honynt ymogelyd y cyfryw bethau ag y ſydd wrthwyneb i'w proffeſs, a chanlyn y ſawl bethau oll ag a fyddo yn cydtuno a'r unrhyw trwy ein Harglwydd Jeſu Grift. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, Tad y trugareddau, yr ydym ni dy weiſion anheilwng yn rhoddi i ti ddiolch goſtyngeiddiaf a ffyddlonaf am dy holl ddaioni, a'th drugareddau i ni ac i bob dyn. Ni a'th fendithiwn am ein creadigaeth, am ein cadwraeth (*yn arbennig am hwnnw o'r dydd heddyw*) ac am holl fendithion y bywyd hwn. Eithir uwchlaw pob dim, am dy anfeidrol gariad ym-mhrynedigaeth y byd trwy ein Harglwydd Jeſu Grift, am y moddion o ras, ac am obaith gogoniant. Ac ni attolygwn ſi ti roddi i ni y cyfryw ddwys ac iawn ymſyniad ar dy holl drugareddau, fel y bo ein calonnau yn ddiffuant yn ddiolchgar, ag fel y mynegom dy foliant, nid a'n gwefuſau yn unig, eithr yn ein buchеddau trwy ymroddi i'th waſanaeth a thrwy rodio ger dy fron mewn ſancteiddrwydd ac uniondeb tros ein holl ddyddiau, trwy Jeſu Grift ein Harglwydd, i'r hwn gyda thydi a'r yſpryd glan, bid yr holl anrhydedd a'r gogoniant byth bythoedd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, Nefol Dad, yddym ni yn oſtyngedig yn ddiolch i ti fod yn wiw gennit ein galw i wybodaeth dy ras, a ffydd ynot; ychwanega yr wybodaeth hon a chadarnha y ffydd hon ynom yn waſtad: dyro i ni dy yſpryd glan fel y ganer ni eilwaith, ac ein gwneler yn etifeddion iechyd tragywyddol, trwy ein Harglwydd Jeſu Grift, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyda thi, a'r yſpryd glan, yr awr hon ac yn dragywydd. *Amen.*

Holl-alluog

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn wyt yn llywiaw pob peth yn y Nefoedd a'r ddaiar, clyw yn drugarog eirchion dy bobl, a chaniadha i ni dy dangneddyf holl ddyddiau ein bywyd trwy Jesu Grist ein Harglwydd *Amen.*

EIn Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw Deuet dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg *Amen.*

I Rasusaf drugaredd a nodded Duw y gorchymynnawn ein hunain y nos hon ac yn dragywydd: O Arglwydd bendithia a chadw ni. Llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnom, a thrugarhaed wrthym. Derchafed yr Arglwydd ei wyneb arnom, a rhodded i ni dangneddyf yr awr hon ac yn oes oesoedd *Amen.*

GWEDDIAU *i'w dywe-dyd ar amſer Ympryd a Goſtyngeiddrwydd.*

Pſal. 51. 1, *Trugarha wrthyf, o Ddduw yn ol dy drugarogrwydd; yn ol lliaws dy dofturiaethau delêa fy anwireddau.*

2. *Golch fi yn llwyr-ddwys oddiwrth fy anwiredd, a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.*

3. *Canys yr wyf yn cydnabod fy nghamweddau; a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.*

9. *Cuddia dy wyneb oddiwrth fy mhechodau; a delêa fy holl anwireddau.*

10. *Crea galon lân ynof, O Ddduw; ac adnewyda yſpryd uniawn o'm mewn.*

11. *Na fwrw fi ymaith oddi-ger dy fron; ac na chymmer dy yſpryd ſanctaidd oddiwrthyf.*

12. *Dyro dracheſn i mi orfoledd dy iechydwriaeth; ac a'th hael yſpryd cynnal fi.*

HOll-alluog Dduw, Tad ein Harglwydd Jeſu Griſt, gwneuthur-wr pob dim, barnwr pob dyn, yddym ni yn cydnabod ac yn ymofidio dros ein amryw bechodau a'n anwiredd y rhai o ddydd i ddydd yn orthrwm a wnaethom, ar feddwl, gair, a gweithred yn erbyn dy Dduwiol Fawredd, gan annog yn gyflawnaf dy ddigofaint a'th far i'n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn ediſarhau, ac yn ddrwg gan ein calonnau, dros ein camweithredoedd hyn, eu coffa ſy'drwm gennym, eu baich ſydd anrhaith ei oddef: trugarha wrthym drugaroccaf Dâd, er mwyn dy un Mâb ein Harglwydd Jeſu Griſt, maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio, a chaniadha i ni allu byth o hyn allan dy waſanaethu

a'th

a'th fodloni, mewn newydd-deb buchedd, ac anrhydedd a gogoniant dy Enw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen*

O Alluoccaf Dduw, a thrugaroccaf Dâd, yr hwn wyt yn tosturio wrth bob dyn, ac nid wyt yn cashau dîm a'r a wnaethoft, yr hwn nid ewyllysi farwolaeth pechadur, onid byw o honaw ac ymchwelyd oddiwrth bechod, a bod yn gadwedig. yn drugarog maddeu ein camweddau, derbyn a chonfforddia ni, y rhai ydym yn flin ac yn orthrwm gennym fa'ch ein pechodau. Ti biau o briodolder drugarhau, i ti yn unig y perthyn maddeu pechodau: Arbet nyni am hynny Arglwydd daionus. Arbet dy bobl y rhai a brynaist. Na ddwg dy weision i'r farn, y rhai ynt bridd gwael a pechaduriaid truain; eithr ymchwel felly dy lid oddiwrthym, y rhai ym yn oftyngedig yn cydnabod ein gwaeledd, ac yn wir edifeiriol gennym ein beiau. Felly bryssia i'n cynnorthwyo yn y byd a ddaw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

YMchwel di ni, o Arglwydd daionus, ac yna yr ymchwelir nî, yftyria o Arglwydd, yftyria wrth dy bobl, y rhai sydd yn ymchwelyd attat trwy wylofain, ymprydio, a gweddio; canys Duw trugarog ydwyt ti, llawn tosturi, yn ddá dy ymmynedd, ac yn fawr dy warder, yr wyt yn arbed pan ym yn haeddu poenau, ac yn dy lîd yddwyt yn meddwl am drugaredd. Arbed dy bobl, Arglwydd daionus, arbed hwy, ac na ddyccer dy etifeddiaeth i waradwydd, clyw nyni o Arglwydd, canys mawr yw dy drugaredd, ac yn ôl llaws dy drugareddau edrych arnom, trwy haeddedigaethau a chyfryngdod dy fendigedig Fâb Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen*

CAniadha, ni attolygwn i ti holl-alluog Dduw fod i ni y rhai a haeddaſom gael ein poeni am ein drwg weithredoedd, trwy gonffordd dy râd ti allu yn drugarog gael hawſhâd, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jeſu Griſt *Amen*.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn waſtad wyt barottach i wrando, na myni i weddio, ac wyt arferol o roddi mwy nac a archom neu a ryglyddom: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y cyfryw bethau ag y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y cyfryw ddaionus bethau nad ŷm deilwng i'w gofyn, ond trwy ryglyddon a chyfryngiad Jeſu Griſt dy Fâb di, a'n Harglwydd ni. *Amen*.

O Dduw, Bendigedig Fâb yr hwn a ymddangoſodd, fel y dattodei weithredoedd Diafol ac y gwnae ni yn feibion i Dduw, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol, caniadha i ni, ni attolygwn i ti gan fod gennym y gobaith hŷn, ein puro ein hunain, megis y mae ynteu yn bûr, fel pan yr ymddangoſo eilwaith gyda nerth a gogoniant mawr i'n gwneler yn gyffelyb iddo ef yn ei dragywyddol a'i ogoneddus Deyrnas: ymha un gyda thi, o Dad a chyda thi, o Yſpryd glan, y mae ef yn bŷw ac yn teyrnaſu, bŷth yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen*.

O Arglwydd, ni a attolygwn i ti ganiadhau i ni rad i wrthlâdd profedigaethau y byd, y cnawd a'r cythrael, ac a phur galon a meddwl i'th ddilyn di yr unig Dduw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd, *Amen*.

Dyrcha

DYrcha, Arglwydd, attolygwn i ti dy gadernid, a thyred i'n plith, ac a mawr nerthi ymmorth ni, fel gan fod arnom (o herwydd ein pechodau a'n hanwiredd) ddirfawr luddias a rhwyſtr i redeg yr yrfa a oſodir o'n blaen, bydded i'th ddaionus râd ti ein gwared ni yn ebrwydd trwy ddiwygiad dy Fab a'n Harglwydd i'r hwn gyda thi a'r Yſpryd glan y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

DUw, yr hwn wyt yn wir nerth i bawb oll ag y fy' yn ymddiried ynot, yn drugarog derbyn ein gweddiau; a chan na ddichon gwendid ein marwol anian wneuthur dim da hebot ti, caniadha i ni gymmorth dy rad, fel y bo i ni gan gadw dy orchymynion, ryngu bodd i ti ar ewyllys a gwethred, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn wyt awdwr a rhoddwr pob daioni, planna yn ein calonnau gariad dy Enw, ychwanega ynom wir grefydd, maetha nyni a phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cadw ni yn yr unrhyw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd, - *Amen.*

CAniadha i ni, Arglwydd, attolygwn i ti, yr Yſpryd i feddwl ac i wneuthur bŷth y cyfrywbethau ag a fo gyfiawn, fel y byddo i ni (y rhai ni allwn hebot wneuthur dim fy' dda) allu trw'o ti fwy yn ol dy ewyllys, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, attolygwn i ti, fod i'th waſtadol doſturi lanhau ac amddiffyn dy Eglwys, a chan na all hi barhau mewn diogelwch heb dy ſanctigedig nodded, cadw hi byth gan dy borth a'th ddaioni, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O Arglwydd, Creawdr a Cheidwad pob dyn yn oſtyngedig attolygwn i ti, tros bob 'ſtad a gradd o ddynion, ar fod yn wiw gennit hyſpyſu iddynt dy ffyrdd, dy iechydwriaeth i'r holl Genhedloedd. Yn bennaf erfynniwn arnat tros lwyddiannus, 'ſtad yr Eglwys Gatholic, fel gan gael ei harwain a'i llywio gan dy Yſpryd graſuſol, y caffo pawb yn eu proffeſſu, ac yn eu galw eu hunain yn Griſtianogion, eu tywys ar hyd ffordd y gwirioneedd, a chynnal y ffydd mewn undeb yſpryd, rhwymyn tangneddyf ac uniondeb buchedd. Yn ddiweddaf, ni a orchymynwn i'th Dadawl ymgeledd y rhai oll a gyſtuddir mewn un modd, neu ſydd yn gyfyng arnynt mewn meddwl, corph, neu 'ſtad; ryngu bodd i ti eu diddanu, a'u cymmorth, yn ol angenrheidiau pob un, gan roddi iddynt ymmynedd dan eu dioddefiadau, a dedwyddol ymwared o'u holl gyſtuddiau. A hyn a erfyniwn er mwyn Jeſu Griſt. *Amen.*

O Dduw, yr hwn biau o naturiaeth a phriodoldeb, drugarhau yn waſtad a maddeu, derbyn ein ufudd weddiau, ac er ein bod ni yn rhwym gan gaethiwed cadwynau ein pechodau; er hynny dattoder ni gan doſturi dy drugaredd, er ahrhydedd Jeſu Griſt ein Cyfryng-wr, a'n Dadleu-wr. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, ffynnon yr holl ddoethineb yr hwn wyt yn gwybod ein angenrheidiau cyn y gofynnom, a'n hanwybodaeth yn gofyn: ni attolygwn i ti, doſturio wrth ein gwendid, a'r pethau hynny, y rhai oblegid ein annheilyngdod ni feiddiwn, ac oblegid ein dallineb ni fedrwn ei gofyn, fod yn deilwng gennit eu rhoddi i ni, er teilyngdod dy Fab Jeſu Griſt ein Harglwydd *Amen.*

Ein

EIn Tad, yr hwn wyt yn y Nefoedd, sanctteiddier dy Enw. Deuet dy deyrnas. Bid dy Ewyllys ar y ddaiar megis y mae yn y Nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth, Eithr gwared ni rhag drwg: canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oesoedd. *Amen.*

GWEDDIAU i'w dywedyd yn amser trallod a blinderau.

TRo ni, o Dduw ein iechydwriaeth, a thorr ymmaith dy ddigofaint wrthym. *Psal.* 85. 4: Dychwel, Arglwydd, pa hyd? ac edifarha o tu a dy weision. *Psal.* 90. 13.

Diwalla ni yn foreu a'th drugaredd; fel y gorfoleddom ac y llawenychom dros ein holl ddyddiau. *Psal.* 90, 14.

Llawenha ni yn ol y dyddiau y cystuddiaist ni, a'r blynyddoedd y gwelsom ddrygtyd. *Psal.* 90. 15.

[*O herwydd ein bod i edrych ar ein trallod a'n blinderau, nid yn unig megis profiadau o'n ffydd a'n hymmynedd ni, ond hefyd megis Cospedigaethau am ein pechodau: gan hynny nid eill fod allan o bryd i ni yr awrhon ein ymddarostwng ein hunain am danynt gerbron Duw, mewn ympryd a gweddi. I'r diben ymma o flaen y gweddiau hyn a ganlyn, chwi a ellwch ddywedyd cynnifer ac a dybioch yn gymmwys allan o'r Gwasanaeth o'r blaen am ymddarostyngiad; pa fodd bynnac na adewch heibio y tri chyntaf, sef y Gyffes, ar ddau hynny yn y Gomminasiwn,*]

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn wastad wyt barottach i wrando, na nyni i weddio, ac wyt arferol o roddi mwy nac a archom,

neu a ryglyddom, tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y cyfryw bethau ac y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y cyfryw ddaionus bethau, nad ym deilwng i'w gofyn, ond trwy ryglydd-don a chyfryngiad Jesu Grist dy Fab di a'n Harglwydd ni. *Amen.*

ARglwydd, ni attolygwn i ti, gadw dy deulu yr Eglwys mewn duw iolder gwastadol, fel y bo trwy dy nodded ti, iddi gael ei gwaredu oddiwrth bob gwrthwyneb, ac yn ddefosionol ymroi i'th wasanaethu di mewn gweithredoedd da, er gogonsant i'th enw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

DUw Tâd trugarog, yr hwn nid wyt yn dirmygu uchenaid calon gystuddiedig, nac adduned y gorthrymmedig: cynnorthwya yn drugarog ein gweddiau y rhai yddym ni yn eu gwneuthur ger dy fron yn ein trallod a'n blinfyd, pa bryd bynnag y gwascant arnom: a gwrando ni yn rasusol, fel y bo i'r drygau hynny, y rhai y mae ystryw a dichell diafol neu ddyn yn eu gwneuthur i'n herbyn, fyned yn ofer, a thrwy ragluniaeth dy ddaioni di, iddynt fod yn wascaredig; modd na'n briwer dy weision drwy un math o dd oddefaint, a gallu o honom byth ddiolch i ti yn dy lân Eglwys, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

NYni a attolygwn i ti, o Arglwydd Dâd, yn drugarog edrych ar ein gwendid, ac er gogonsant dy Enw, ymchwel oddiwrthym yr holl ddrygau a ddarfu i ni o wir gyfiawnder eu haeddu; a chaniadha fod i ni yn ein holl drallod, ddodi ein cyfan ymddiried a'n gobaith yn dy drugaredd, ac byth dy wasanaethu mewn sancteiddrwydd, a phur-

deb

deb buchedd, i'th anrhydedd a'th ogoniant, trwy ein unig Gyfryng-wr a'n Dadleu-wr Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, ni a attolygwn i ti wrando yn ddarbodus weddiau dy bobl fel y byddo i ni y rhai a gospir yn gyshawn am ein camweddau, allu yn drugarog gael ein ymwared gan dy ddaioni di, er gogoniant dy Enw, trwy Jesu Grist ein Iachawdwr, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyda thi ar Yspryd glan byth, yn un Duw, heb drangc na gorphen yn oes oesoedd. *Amen.*

HOll-gyfoethog a thragywyddol Dduw, yr hwn o'th garedigol serch ar ddyn, a ddanfonaist dy Fab ein Iachawdwr Jesu Grist i gymmeryd arnaw ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y groes, fel y gallai bob rhyw ddyn ddilyn ensampl ei sawr ostyngeiddrwydd ef; caniadha o'th drugaredd fod i ni ganlyn ensampl ei ddioddefaint, a bod yn gyfrannogion o'i gyfodiad, trwy yr unrhyw Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn yn unig a biau llywodraethu a freolus chwantau a gwyniau dynion pechadurus, caniadha i'th bobl, fod iddynt garu yr hyn yr wyt ti yn ei orchymyn, a deisyfu yr hyn yr wyt yn ei addo, fel ymmhlith amrafael ddamweiniau y byd allu o'n calonnau gwbl aros yn y lle y mae gwir lawenydd i'w gaffael, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

O Dduw, Brenhin y gogoniant, yr hwn a ddyrchefaist dy un Mab Jesu Grist a mawr oruchafiaeth i'th deyrnas yn y nefoedd: attolwg i ti na âd ni yn anniddan, eithr danfon i ni dy Yspryd glan

glan i'n diddanu, a dyrcha ni i'r un fan lle yr aeth ein Iachawdwr Criſt o'r blaen; yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyda thi a'r Yſpryd glan yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

ARglwydd ni attolygwn i ti yn drugarog ein gwrando, a megis y rhoddaiſt i ni feddyliſryd calon i weddio, caniadha drwy dy fawr nerth i ni gael ein hamddifyn a'n diddanu, ymhob perygl ac adfyd trwy Jeſu Griſt ein Iachawdwr. *Amen.*

RHag-flaena ni, o Arglwydd, yn ein holl weithredoedd a'th radlonaf hoffder, rhwyddha ni a'th barhaus gymmorth, fel yn ein holl weithredoedd dechreuedig, annherfynedig a therfynedig ynot ti, y gallom foliannu dy ſanctaidd Enw, ac yn y diwedd gael gan dy drugaredd fywyd tragywyddol trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

EIn Tad yr hwn wyt yn y nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deuet dy deyrnas. Bid dy ewyllys ar y ddaiar, megis y mae yn y Nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyled-wŷr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; Eithr gwared ni rhag drwg: Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

Gweddiau tros y claf.

Na chofia, Arglwydd, ein anwiredd, nac anwiredd ein rheini, ac na ddyro ddial am ein pechodau: arbet nyni, Arglwydd daionus, arbet dy bobl a brynaiſt a'th werthfawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd.

Holl-alluog

HOll-alluog Dduw, Tâd ein Harglwydd Jesu Grist, gwneuthur-wr pob dim, barn-wr pob dyn, yr ym ni yn cydnabod, ac yn ymofidio dros ein amryw bechodau a'n anwiredd, y rhai o ddydd i ddydd yn orthrwm a wnaethom, ar feddwl, gair a gweithred, yn erbyn dy Dduwiol Fawredd, gan annog yn gyflawnaf dy ddigofaint a'th far i'n herbyn. Yr ydym yn ddifrifol yn edifarhau, ac yn ddrwg gan ein calonnau dros ein cam-weithredoedd hyn, eu cofla fy drwm gennym, eu baich sydd anrhaith ei oddef: trugarha wrthym, trugarha wrthym, drugaroccaf Dâd, er mwyn dy un Mâb ein Harglwydd Jesu Grist maddeu i ni yr hyn oll a aeth heibio, a chaniadha i ni allu byth o hyn allan dy wasanaethu a'th fodloni, mewn newyddeb buchedd, er anrhydedd a gogoniant dy Enw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

OAllueccaf Dduw, a thrugaroccaf Dad, yr hwn wyt yn tosturio wrth bob dyn, ac nid wyt yn casnau dim a'r a wnaethost, yr hwn nid ewyllysi farwolaeth pechadur, onid byw o honaw ac yn chwelyd oddiwrth bechod, a bod yn gadwedig: yn drugarog maddeu ein camweddau, derbyn a chonfforddia ni, y rhai ydym yn flin ac yn orthrwm gennym faich ein pechodau. Ti biau o briodolder drugarhau, i ti yn unig y perthyn maddeu pechodau: arbet dy bobl y rhai a brynaist. Na ddwg dy weision i'r farn, y rhai ynt bridd gwael, a phechaduriaid truain: Eithr ymchwel felly dy lid oddiwrthym y rhai ym yn oftyngedig yn cydnabod ein gwaeledd, ac yn wir edifeiriol gennym ein beiau: felly bryfia i'n cynnorthwyo yn y byd hwn, fel y gallom byth fyw eyda thi yn y byd a ddaw, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Caniadha

CAniadha, ni attolygwn i ti Holl-alluog Dduw fod i ni y rhai a haeddaſom gael ein poeni am ein drwg weithredoedd, trwy gonſtordd dy radau allu yn drugarog gael hawſhad, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jeſu Griſt. *Amen:*

O Drugarog Arglwydd ni attolygwn i ti ganiadhau i'th ffyddlawn bobl faddeuant a thangneddyf, fel y glanhaer hwynt oddiwrth eu holl bechodau, ac y gwaſanaethont ti a meddwl hedd ychol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

Os y dyn claſ a ddengys ddim galar a thriſtwch am ei bechodau o'r blaen (yr hyn a ddilei pob ymwelwr caredig ei gynhyrfu ynthо, yno ymarferwch y weddi a ganlyn.

O Drugaroccaf Dduw, yr hwn yn ol lluoſowgrwydd dy drugaredd, wyt felly yn dileu pechodau y rhai fydd wir edifeiriol, fel nad wyt yn eu cofio mwy; agor lygad dy drugaredd ar dy waſanaeth-wr yma, yr hwn o wir ddifrif ſydd yn dymuno gollyngdod a maddeuant: adnewydda ynddo, garediccaf Dad, beth bynnag a leſcawyd trwy ddichell a malais y cythrael, neu drwy ei gnawdol ewyllys ei hun, a'i wendid: cadw a chynnal yr aelod clwyfus hwn o fewn undeb dy Eglwys, yſtyria wrth ei wir edifeirwch, derbyn ei ddagrau, yſcafnha ei ddolur, modd y gwelych di fod yn oreu ar ei les, ac yn gymmaint a'i fod ef yn rhoddi cwbl o'i ymddiried yn unig yn dy drugaredd di, na liwia iddo ei bechodau o'r blaen, eithr nertha ef a'th wynfydedig Yſpryd, a phan welych di yn dda ei gymmeryd ef oddiymma cymmer ef i'th nodded, trwy ryglyddion dy garediccaf Fab Jeſu Griſt ein Harglwydd *Amen.*

O Arglwydd edrych i lawr o'r nefoedd, golyga, ymwel, ac eſmwytha ar dy waſhwn, edrych

arno

rno a golwg dy drugaredd, dyro iddo gonfforddiogel ymddiried ynot, amddiffyn ef rhag perygl gelyn, a chadw ef mewn tangneddyf tragywyddol a diogelwch trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

ERyglyw ni holl-gyſoethog a thrugaroccaf Dduw ac Jachawdwr, eſtyn dy arferedig ddaioni i hwn dy wasanaethwr ſydd ofidus gan ddolur; ſancteiddia ni attolygwn i ti, dy Dadol goſpedigaeth hon iddo ef, fel y bo i'w wybyddiaeth o'i wendid anghwanegu nerth i'w Ffydd, diſnſwch i'w Edifeirwch, fel os bydd dy ewyllys roddi iddo ei gynneſin iechyd, y bo iddo dreulio y rhan arall o'i fywyd yn dy ofn ac i'th ogoniant: neu dyro iddo ras i gymmeryd felly dy ymweliad, fel y bo iddo yn ol diweddu y ſuchedd boenedig hon, allu trigo gydâ thi yn y ſuchedd dragywyddol, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-gyſoethog a byth-fywiol Dduw, gwneuthurwr dynol ryw, yr hwn wyt yn coſpi y rhai a gerych, ac yn ceryddu pawb a'r a dderbyniech: nyni attolygwn i ti drugarhau wrth dy was hwn ymma yn ymweledig gan dy law, ac i ti ganiadhau gymmeryd o honaw ni ei glefyd yn ddioddefus, a chael ei iechyd trachefn (os dy rad iawn ewyllys di yw hynny) a pha bryd bynnag yr ymadawo ei enaid a'i gorph, bod o honaw yn ddifagl wrth ei breſentio i ti, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

CAniadha, o Arglwydd, megis i'n bedyddir i farwolaeth dy fendigedig Fab ein Jachawdwr Jeſu Griſt, fod i ni felly trwy farwolaethu yn waſtad ein gwyniau llygredig gael ein claddu gydag ef,

ef, a thrwy'r bedd a phorth angeu fyned ymlaen, trwy ei haeddedigaethau ef, yr hwn a fu farw, ag y gladdwyd, ag a ailgyfododd er ein mwyn, ſef dy Fâb Jeſu Grift ein Harglwydd. *Amen.*

O Dduw Brenhin y gogoniant, yr hwn a ddyrchefaiſt dy un Mâb Jeſu Grift a mawr oruchafiaeth i'th deyrnas yn y Nefoedd: attolwg i ti na ad ni yn anniddan, eithr danfon i ni dy Yſpryd glan i'n diddanu, a dyrcha ni i'r un fan lle yr aeth ein Jachawdwr Crift o'r blaen, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gyda thi a'r Yſpryd glan yn un Duw, heb drange na gorphen. *Amen.*

Ein Tad yr hwn, &c.

GWEDDIAU *tros y claf,*

lle na weler ſawr obaith o'i weliad.

[*Chwi a ellwch arfer rhai o'r gweddiau o'r blaen dros y claf, (cymhelled ac y bo cyflwr y dyn yn cyd ddwyn neu yn ei ofyn) ac felly ewch ymlaen at y rhai a ganlynant.*]

O Dad y Trugareddau, a Duw pob diddanwch, ein unig borth yn amſer angenoctid, attat ti y rhedwn am gymmorth dros dy waſanaethydd hwn yn gorwedd ymma dan dy law di mewn dirfawr wendid corph. Edrych arno yn raſuſol o Arglwydd; a pha mwyaf y gwanhycho y dyn oddiallan, nertha ef fwy-fwy, ni attolygwn i ti, a'th râd ac a'th lan Yſpryd yn y dyn oddimewn. Dyro iddo ddiffuant edifeirwch am holl gyfeiliorni ei fuchedd o'r blaen a ffydd ddiyſcog yn dy Fab Jeſu, fel y dileuer ei bechodau trwy dy drugaredd di, ac y ſelier ei bardwn yn y Nef, cyn iddo fyned oddiymma, ac na weler ef mwyach. Da y gwyddom, nad oes un gair rhŷ

thy an hawdd i ti, ac y gelli, os mynni, ei godi ef etto ar ei draed, a chaniadhau iddo hwy hoedl yn ein plith, Er hynny yn gymmaint a bod (hyd y gwel dyn) amſer ei dattodiad ef yn tynnu yn agos, felly parottoa, a chymmwyſa ef, ni attolygwn i ti, erbyn awr angeu, fel ar ol ei ymadawiad oddiymma mewn tangneddyf ac yn dy ffafr di, y derbynier ei enaid ef i'th deyrnas dragywyddol, trwy haeddedigaethau a chyfryngiad Jeſu-Griſt dy unig Fâb di, ein Harglwydd ni a'n Jachawdwr. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, gyda'r hwn y mae yn byw yſprydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd wedi cael eu gwared o'r carcharau daiarol: yr ym yn oſtyngedig yn gorchymmyn enaid dy waſanaethydd hwn, ein brawd anwŷl, i'th dwylaw dy megis i ddwylaw Creawdr ffyddlawn ac Jachawdwr trugaroccaf, gan ufudd attolwg i ti, gael iddo fod yn werthfawr yn dy olwg. Golch ef, ni a erfyniwn arnat yngwaed yr oen difrycheulyd hwnnw a laddwyd er mwyn dileu pechodau'r byd, fel gan gael glanhau a dileu pa lwgr bynnag a gaſclodd yn y byd adfydig a drygionus hwn drwy chwantau'r cnawd neu yſtrywiau Satan, y caffo ei gyfiwyno yn bur ac yn ddifeius yn dy olwg di: a dyſc i ninnau y rhai ym yn byw ar ei ol ef, ganfod yn hwn, ac eraill ddrychau marwoldeb o ddydd bwy gilydd, mor freuol a bregus yw ein cyfiwr ein hunain, ac felly cyfryf ein dyddiau, fel y dygom ein calonnau yn ddifrifol i'r cyfrŷw ddoethineb ſanctaidd a nefol tra bom byw ymma, a'n dygo o'r diwedd i fywyd tragywyddol, trwy haeddedigaethau Jeſu Griſt dy unig Fab ein Harglwydd ni. *Amen.*

Jachawdwr

I Achawdwr y bŷd, yr hwn drwy dy groes a'th wrthfawr waed a'n prynaiſt, achub a cymmorth ni, nyni attolygwn i ti o Arglwydd.

YNghanol ein bywyd yr ydym mewn angeu, gan bwy y mae ini geiſio ymwared onid gennit ti, Arglwydd, yr hwn am ein pechodau wyt yn gyſiawn yn ddigllawn?

Er hynny Arglwydd Dduw ſanctteiddiaf, Arglwydd galluoccaf, o ſanctaidd a thrugarog Jachawdr, na allwng ni i ddygn chwerwaf boenau angeu tragywyddol.

Ti Arglwydd a adwaenoſt ddirgelion ein calonnau, na chaua dy gluſtiau trugarog oddiwrth ein gweddiau, eithr arbed nyni, o Arglwydd ſanctteiddiaf, o Dduw galluoccaf, o ſanctaidd a thrugarog Jachawdr, tydi deilyngaf farnwr tragwyddol, na âd ni yn yr awr ddiwaethaf er neb rhwy boenau angeu, i ſyrthio oddiwrthit.

O Drugarog Dduw, Tâd ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn yw y cofodiad a'r bywyd, ymmhâun pwy bynnag a gretto a fydd byw, er iddo fawr; a pwy bynnag a ſo byw ac a gretto ynddo ef, ni bydd marw byth: yr hwn hefyd a'n dyſcodd (trwy ei Apoſtl bendigedig *S.* Paul) na thriſtaem fel rhai heb obaith, dros y rhai a hunant ynddo ef: nyni yn oſtyngedig a attolygwn i ti o Dâd, ein cyfodi ni o angeu pechod i fuchedd cyſiawnder, fel y bo i ni wedi ymado a'r fuchedd hon, allu gorphwys ynddo ef, megis y mae ein gobaith fod ein brawd hwn: ac ar y cyfodiad cyffredin y dydd diwaethaf, allu ein caffael yn gymeradwy yn dy olwg di, a derbyn y fendith a ddatcan dy garedig Fâb yr amſer hynny i bawb a'r a'th ofnant, ac a'th garant; gan ddywedyd, *Deuwch chwi fendigedig blant fy Nhad, meddiennwch*

f

deyrnas a barottwyd i chwi er pan seiliwyd y byd.
Caniadhâ hyn. ni attolygwn i ti o Drugarog Dâd,
rwy Jesu Grist ein Cyfryngwr a'n Pryniawdwr.
Amen.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd, sancteiddier
dy Enw. Deued dy deyrnas. Bid dy ewy-
lys ar y ddaiar, megis y mae yn y Nefoedd. Dyro
ni heddyw ein bara beuniddiol. A maddeu i ni
in dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyled-wyr.
ac nac arwain ni i brofedigaeth. Eithr gwared
ni rhag drwg; canys eiddot ti yw'r deyrnas a'r
allu, a'r gogoniont yn oes oesoedd: Amen

GWEDDIAU tros Blentyn Claf.

HOll-alluog Dduw, a thrugaroccaf Dâd, i'r
hwn yn unig y perth yn debennion bywyd
ac angau, edrych i lawr o'r Nef, ostyngedig ni at-
olygwyn i ti a golygon dy drugaredd ar y Plen-
yn hwn y sydd yr awr hon yn ei glâfwely, ym-
wel o Arglwydd ag ef a'th iechydwriaeth; gwared
ef yn dy nodedig amser dâ o'i boen gorphorol, ac
ehub ei enaid er mwyn dy drugareddau, fel os
ydd dy ewyllys estyn ei ddyddiau ymma ar y
ddaiar, y byddo iddo fwy i ti, a hysforddio dy
goniant gan dy wasanaethu yn ffyddlon, a gwn-
uthur daioni yn ei Genhedl: os amgen, derbyn
ef i'r preswylfeydd nefol hynny, lle mae eneidiau
y sawl a hunant yn yr Arglwydd Jesu yn mwyn-
hâu anorphen oi phwysfa a dedwyddwch Caniad-
hâ hyn Arglwydd, er dy drugareddau yn yr un-

rhyw

rhyw dy Fâb di, ein Harglwydd ni Jesu Grist y hwn sydd yn byw, ac yn teyrnasu gydâ thi a'r Yspryd glân, byth yn un Duw heb drangc na gorphen. Amen.

HOll-alluog ac anfarwol Dduw, porth bob anhenog, nawdd-ŵr pawb a gilio attat am gynnorthwy, bywyd y rhai a gredant, a chyfodiad y meirw: yddym yn galw arnat tros y dyn bychan ymma, ac megis yr addewaist trwy dy garedig Fâb gan ddywedyd, *Gofynnwch, a rhoddir i chwi; Ceisiwch, a chwi a gewch; Curwch, ac fe agorir i chwi.* Felly yn awr dyro i ni, a ni yn gofyn; pâr i ni gael, a ni yn ceisio; agor ŷ porth i ni sy'n curo: fel y gallo y dyn bychan ymma fwynhau tragywyddol fendith dy Nefol râd a dyfod i'r deyrnas dragywyddawl, yr hon a addewaist, trwy Grist ein Harglwydd. Amen.

AMddiffyn Arglwydd y Plentyn hwn a'th râs Nefol, fel y byddo iddo barhâu yn eiddot ti byth, a pheunydd gynyddu yn dy Yspryd glân fwy-fwy, hyd oni ddel i'th deyrnns dragywyddol. Amen.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd, sanctteiddier dy enw. Deuet dy deyrnas. Bîd dy Ewyllys ar y ddaiar, megis y mae yn y Nefoedd. Dyro i ni beddyw ein bara beunyddiol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyledwyr. Ac nac atwain ni i brofedigaeth. Eithr gwared ni rhag drŵg: canys eiddot ti yw'r Deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesodd. Amen.

Gweddiau tros y rhai a fo *mewn blinder meddwl, neu anheddwch Cydwybod.*

O Arglwydd, edrych i lawr o'r Nefoedd, golyga, edrych ymwel, ac eſmwythâ ar dy wâs hwn, arno a golwg dy drugaredd, dyro gonfforddz diogel ymddiried ynot, amddiffyn ef rhag perygl y gelyn, a chadw ef mewn tangneddyf tragywyddol a diogelwch, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

BEndigedig Arglwydd, Tâd y trugareddau, a Duw pob diddanwch, ni a attolygwn i ti, edrych a golwg toſturi a thrugaredd ar dy waſanaeth-wr cyſtuddiedig ymma. Yr wyt ti yn ſcrifennu pechau chwerwon yn ei erbyn ef, ac yn gwnuthur iddo feddiannu ei gamweddau gynt; y mae dy ddigofaint yn pwyſo arno, a'i enaid ſydd lawn o ſlinder. Eithr o Dduw trugarog, yr hwn a 'ſcrifennaiſt dy air ſanctaidd er addyſc ni, fel trwy ymmynedd a diddanwch dy lân ſcrythyrau y gallem gael gobaith, dyro iddo iawn ddealltwriaeth o'i gyflwr ei hun, ac o'th ſygythion a'th addewidion di, fel nad ymadawo a'i obaith arnat ti, ac na ddodo ei ymddried ar ddim arall ond tydi. Nertha ef yn erbyn ei holl brofedigaethau, iachâ ef o'i anardymherau, na ddryllia y gorſen yſſig, ac na ddiffodd y llîn yn mygu, na chau dy drugareddau mewn ſorriant; Eithr pâr iddo glywed llawenydd a gorfoledd, fel y llawenycho yr eſcryn a ddryllaiſt. Gwared ef rhag ofn y gelyn, a dyrcha lewyrch dy wyneb-pryd arno, a dyro iddo daugneddyf trwy ryglyddon a chyfryngdod Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O Drugarog Arglwydd, ni attolygwn i ti ganiadhâu i'th ffyddlawn bobl (*ac yn enwedig i hwn dy wasanaethwr*) feddeuant a thangneddyf, fel y glanhâer hwynt oddiwrth eu holl bechodau, ac y gwasanaethont ti a meddwlheddychol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

DUw yr hwn a ddyscaist galonnau dy ffyddlonion, gan anfon iddynt lewyrch dy lan Yspryd; caniadha i nyni trwy yr unrhyw Yspryd, ddeall yr iawn farn ymhob peth, a byth lawenychu yn ei wynfydedig ddiddanwch ef, trwy ryglyddon Jesu Grist ein Jachawdwr, yr hwn sydd yn byw, ac yn teyrnasu gyda thi yn undeb yr unrhyw Yspryd, yn un Duw, heb drangc na gorphen. *Amen.*

NYni a attolygwn i ti, o Arglwydd *Dâd*, yn drugarog edrych ar ein gwendid, ac er gogoniant dy Enw, ymchwel oddiwrthym yr holl ddrygau a ddarfu i ni o wir gyfiawnder eu haeddu, a chaniadha fod i ni yn ein holl drallod-ddodi ein cyfan ymddiried a'n gobaith yn dy drugaredd, a byth dy wasanaethu mewn sancteiddrwydd a phurdeb buchedd, i'th anrhydedd a'th ogoniant trwy ein unig gyfryng-wr a'n Dadleu-wr Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, yr hwn yn wastad wyt barottach i wrando, na nyni i weddio, ac wyt arferol o roddi mwy nac a archom neu a ryglyddom: tywallt arnom amlder dy drugaredd, gan faddeu i ni y cyfryw bethau ac y mae ein cydwybod yn eu hofni, a rhoddi i ni y cyfryw ddaionus bethau, nad ym deilwng i'w gofyn, ond trwy ryglyddon a chyfryngiad Jesu Grist dy Fab

ti, a'n Harglwydd ni, *Amen.*
Ein Tâd, *&c.*

GWEDDIAU i'w dywedyd cyn yr eloch Eglwys.

HOll-alluog a thrugarog Dduw, o rodd pwy un yn unig y daw, bod i'th bobl ffyddlon dy wasanaethu yn gywir, ac yn foledig: caniadhâ ni erfyniwn i ti, allu o honom felly dy wasanaethu di yn y bywyd hwn, fel na phallo gennym yn y diwedd fwynhâu dy nefol addewidion, trwy haeddedigaethau Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

O Arglwydd Jesu Grist, yr hwn ar dy ddyfodiad cyntaf a anfonaist dy Gennad-wŷr i baratoi dy ffordd o'th flaen; caniadhâ i weinidogion goruchwil-wŷr dy ddirgeledaethau, felly barotoi ac arloesi y ffordd, gan droi calonnau y rhai anufudd i Ddoethineb y cyfiawn, fel ar dy ail ddyfodiad i farnu 'r byd, i'n caffer yn bobl gymmerwy yn dy olwg di, yr hwn wyt yn byw ac yn teyrnasu gydâ 'r Tâd a'r Yspryd glân byth yn un Duw heb darngc na gorphen. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy Fâb Jesu Grist a roddaist i Weinidogion dy Eglwys weroedd o ddonniau arbennig, ac a orchymmynaist iddynt o ddifrif borthi dy braidd; gwnâ, ni tolygwn i ti, i'r holl Escobion, a'r Bugeiliaid *(yn enwedig y rheini a osodaist arnom ni)* yn ddyfal egethu dy sanctaidd air, ac i'r bobl yn ufuddgar ilyn yr unrhyw, fel y byddo iddynt hwy allu

derbyn coron y gogoniant tragywyddol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn a adeiledaist d Eglwys ar sail yr Apostolion, a'r Prophwyd ac Jesu Grist ei hun yn ben conogl-faen: caniadh i ni fod felly ein cyssylltu ynghyd yn undeb Yspry gan eu dysceidiaeth hwy, fel i'n gwneler yn sanc aidd Deml gymmeradwy gennit, trwy Jesu Gri ein Harglwydd. *Amen.*

Ein Tâd yr hwn, &c.

Gweddiau i'w dywedyd pan ddeloch i'r Eglwys.

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, ni a atto ygwn yn ufuddol i'th Fawredd, megis ac presentiwyd unwaith un y Deml dy unig-aned Fâb yn sylwedd ein cnawd ni; felly caniadha c presentio i ti a chalonnau purlan, trwy yr unrhy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

YGwynfydedig Arglwydd, yr hwn a beraist y holl Yscrythur-lân yn'scrifenedig er mwy ein athrawiaeth, a'n haddysc ni: caniadhâ fod i n yn y cyfryw fod ei gwrando, ei darllain, ei chw liaw, a'i dyscu, ac i'n mewn ei mwynhau, fel gallom trwy ymmynedd a diddanwch dy gyssegr dig air, gofleidio ac ymgynnal wrth fendigaid o baith y fuchedd dragywyddol, yr hon a roddaist ni, yn ein Iachawdwr Jesu Grist. *Amen.*

GWEDDIAU

Gweddiau i'w dywedyd

pan ddeloch allan o'r Eglwys.

HOll-alluog Dduw, yr hwn o'i wir adnabod yw bywyd tragywyddol; caniadha i ni berffaith adnabod dy Fâb Jesu Grist, i fod yn ffordd, yn wirionedd, ac yn fywyd, fel gan ufuddhau ei athrawiaeth a dilyn ei lwybrau ef, y bo i ni rodio yn ddyfal ar y ffordd y fy'n arwain i fywyd tragywyddol drwy'r unrhyw dy Fâb Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn wyt Awdwr a rhoddwr pob daioni, planna yn ein calonnau gariad dy Enw, ychwanega ynom wir grefydd, maetha nyni a phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cadw ni yn yr unrhyw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd ni attolygwn i ti fod dy râd bob amser yn ein rhagflaenu, ac yn ein dilyn; a pheri o honot i ni yn wastad ymroddi i bob gweithred dda, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

CAniadha, ni attolygwn i ti Holl-alluog Dduw, am y geiriau a glywsom heddyw a'n clustiau oddallan, eu plannu yn ein calonnau oddi mewn fel y gallont ddwyn ynom ffrwyth buchedd dda, er anrhydedd a moliant i'th Enw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

ARglwydd, nyni a attolygwn i ti dderbyn yn drugarog weddiau dy weision sydd yn galw arnat, a chaniadha i ni ddeall a gwybod yr hyn a ddylem ei wneuthur, a chael hefyd rad a gallu yn ffyddlon i wneuthur yr unrhyw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, *Amen.*

GWEDDIAU AR DDYDDIAU-SACRAMENT.

Y boreu cyn yr eloch allan o'ch ty.

HOll-alluog Dduw, yr hwn drwy dy unig-anedig Fab Iesu Grist a orchfygaist angeu, ac a agoraist i ni borth y bywyd tragywyddol: yn ufudd yr attolygwn i ti, megis (drwy dy rad hyspysol yn ein hachub) ydd wyt yn peri dersyniadau da i'n meddyliau: felly trwy dy ddysal gymmorth allu o honom eu dwyn i ben da, trwy Iesu Grist ein Harglwydd, yr hwn sydd yn byw ac yn teyrnasu gyda thydi a'r Yspryd glan byth yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen.*

HOll-allog Dad, yr hwn a roddaist dy un Mab i farw dros ein pechodau, ac i gysodi drachefn dros ein cyfiawnhad: caniadha i ni felly swrw ymmaith surdoes drygioni ac anwiredd, fel y gallom yn wastad dy wasanaethu di ymhurdeb buchedd a gwirionedd, trwy haeddedigaethau dy un Mab Iesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, dyro i ni anghwaneg o Ffydd, Gobaith, a Chariad perff. itu, ac fel y gallom gael yr hyn yr wyt yn ei addo gwna i ni garu yr hyn yr wyt yn ei orchymmyn

trwy

trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

RHag-flaena ni, o Arglwydd, yn ein holl weithredoedd a'th radlonaf hoffder, rhwyddha ni a'th barhaus gymmorth, fel yn ein holl weithredoedd deuchreuedig, anherfynedig, a therfynedig ynot ti, y gallom foliannu dy fanctaidd Enw, ac yn y diwedd gael gan dy drugaredd fywyd tragywyddol, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

HOll-alluog Dduw, Nefol Dâd, yr hwn a'n gwahoddaist ni heddyw i'th fwrdd fanctaidd, lle y miniſtrir trachyſſurus Sacrament corph a gwaed Crist, i'w dderbyn er coffau ei ryglyddus Grog a'i ddioddefaint, trwy ba un yn unig y cawn faddeuant am ein pechodau, ac i'n gwneir yn gyfrannogion o deyrnas Nêf. Yr ym yn talu i ti ufudd ſſyddlon ddiolch am roddi dy Fâb ein Iachawdwr Jesu Grist, nid yn unig i farw trofom, eithr i fod hefyd yn ymborth a lluniaeth yſprydol i ni yn y *Sacrament* bendigedîg hwnnw. Yr hyn beth gan ei fod mor ddwiol a chyſſurus i'r ſawl ai derbyniant yn deilwng, ac mor embydus i'r rhai a ryfygant ei dderbyn yn anheilwng; nyni yn oſtyngedig a attolygwn i ti roddi i ni râs i wir yſtyried arddercholgrwydd y dirgeledigaeth bendigedig hwnnw, a'r mawr berygl o'i dderbyn yn annheilwng; ac hefyd i chwilio a phrofi ein cydwybodau ein hunain (a hynny nid yn yſcafn ac yn ol dull rhai yn rhagrithio a thydi ein Duw, ond) felly, fel y gallom ddyfod yn lan ac yn fanctaidd i'r cyfryw wledd Nefol, yn y wiſcbriodas, yr hon a ofyn Duw yn y *Scrythur lan*, a chael ein derbyn megis cyfrannogion teilwng o'r brwdd bendigedig hwnnw. Caniadha hyn, o Arglwydd er mwyn yr unthyw dy Fab Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Yn yr Eglwys pan foch gyntaf yn ymbarottoi tuagat y Sacrament.

MI a wn, o Arglwydd, fod y lles yn fawr, os a chalon wir edifeiriol ac a bywiol ffydd y cymmerwn y Sacrament bendigedig hwn (canys yna yddym ni yn yſprydawl yn bwytta cîg Criſt ac yn yfed ei waed ef; yna yddym yn trigo yng-Hriſt, a Chriſt ynom ninnau, yddym yn un a Chriſt, a Chriſt a ninnau:) caniadha gan hynny, Arglwydd daionus, fod i mi ac i bawb ac ſydd gyfrannogion o honaw, wir edifarhau am ein pechodau a aeth heibio, bôd gennym fywiol a drogel ffydd yng-Hriſt ein Iachawdwr, fod i ni wellhau ein buchedd, a byw mewn cariad perffaith a phob dyn, ac felly bod yn weddus gyfrannogion o'r dirgeledigaethau ſancteiddiol hyn. *Amen,*

OFendigedig Ieſu, yr hwn (er cofio o honom yn waſtad dy ddirfawr gariad, yn marw droſom, a'r aneirif ddonniau daionus, y rhai drwy dy-wallt dy werthfawr waed, a ennillaiſt i ni:) a oſodaiſt ac a ordeiniaiſt y cyfryw ddirgeledigaethau fel gwyſtlon o'th gariad, ac er gwaſtadol gof am dy angeu er mawr ac annherfynol gonffordd i ni; i ti gyda'r Tad a'r Yſpryd glan y rhoddaf (fel yr wyf rwymediccaf) waſtadol ddiolch, gan fy ymoſtwng fy hunan yn gwbl i'th waſanaethu di mewn gwir ſancteiddrwydd a chyfiawnder holl ddyddiau fy einioes. A chryſha fi, o Arglwydd Ieſu, yn y bwriad hwn, mi a attolygaf i ti er mwyn dy ſanctaidd enw. *Amen.*

Tra

Tra bydder yn gweini y Sacrament.

[*Wedi cyſſegru y Defnyddiau, tra bo eraill yn derbyn, dywedwch gynnifer o'r gweddiau a ganlynant ac a alloch, nes y deloch i dderbyn eich hun*]

O Drugarog Dduw, caniadha felly gladdu yr hên Adda, fel y cyfotter y dyn newydd ynof. *Amen.*

Caniadha fod i holl chwantau 'r cnawd farw ynof, ac i bob peth a berthyn i'r yſpryd allu byw a chynnyddu ynof. *Amen.*

Caniadha fod i mi nerth a gallu i'gael yr oruchafiaeth, a'r gorfod yn erbyn diafol, y byd, ar cnawd. *Amen.*

Caniadha fod i mi, a phawb ag ſydd ymma yn eu cyſſegru eu hunain i ti ar dy fwrdd ſanctaidd, allu hefyd fod yn gynyſcaeddol o rinweddau nefol, a thragywyddol obrwyau drwy dy drugaredd, o Fendigedig Arglwydd Dduw, yr hwn wyt yn byw ac yn llywiaw pob peth yn oes oeſoedd. *Amen.*

DUw Tad o'r Nêf: trugarha wrthym wir bechaduriaid.

Duw Fâb, Bryn-wr y byd, trugarha wrthym wir bechaduriaid.

Duw Yſpryd glân, yn deilliaw oddiwrth y Tâd a'r Mâb, trugarha wrthym wir bechadurlaid.

Y gogoned lân, fendigaid Drindod, tri pherſon, ac un Duw; trugarha wrthym wir bechaduriaid.

Na chofia, Arglwydd, ein hanwiredd, nac anwiredd ein rhieni, ac na ddyro ddial am ein pechodau: Arbet nyni, Aglwydd daionus, arbet dy bobl a brynaiſt a'th werthfawr waed, ac na lidia wrthym yn dragywydd:

Oddi-wrth

Oddiwrth bob drŵg ac anſtawd, oddiwrth bo chod, oddiwrth yſtryw a chyrch y cythrael, oddi wrth dy lîd, ac oddiwrth farnedigaeth dragywy ddol, Gwared ni, Arglwydd daionus.

Oddiwrth bob dalline b calon, oddiwrth falch der, a gwâg ogoniant, a ffûg ſanctiddrwydd, oddi wrth genfigen, digaſedd, a bwriad drŵg a phob anghariadoldeb, Gwared ni, Arglwydd daionus.

Teilyngu o honot roddi i ni galon i'th garu, a i'th ofni, ac i fyw yn ddieiſceulus yn ol dy orch ymmynion.

Teilyngu o honot ddwyn i'r ffordd wir bawb a'r a aeth ar gyfeiliorn ac a dwyllwyd.

Teilyngu o honot nerthu y rhai ſŷ 'n ſefyll, a chonfforddio a chynnorchwyo y rhai ſy' a gwan galon, a chyfodi y ſawl a ſyrthiant, ac o'r diwedd curo i lawr Satan tan ein traed.

Teilyngu o honot gymmorth a helpu a diddanu pawb a'r y ſydd mewn perygl, angenoctid a thrwblaeth; amddiffynag ymgeleddu y plant ymddifaid, a'r gwaredd gweddwon, a phawb ſŷdd yn unig, ac yn goddef pwys plaid orthrech

Teilyngu o honot drugarhâu wrth bob dyn; faddeu i'n holl elynion, erlyn-ŵyr, ac yſclandrŵyr, a rhoi eu calonnau.

Teilyngu o honot roddi i ni wir edifeirwch, a maddeu i ni ein holl bechodau, ein eiceulusdra, a'n hanwybod, a'n cynnyſcaeddu a rhad dy Yſpryd glân, i wellhau ein buchedd yn ol dy air ſanctaidd.

Mâb Duw, attolygaf i ti fyngwrando.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dilêu pechodau 'r byd, caniadhâ i ni dy dangneddyf.

Oen Duw, yr hwn wyt yn dilêu pechodau 'r byd, trugarhâ wrthym.

Iachawdwr y byd, yr hwn drwy dy grog a'th

werthfawr

wrthfawr waed a'n prynaiſt, achub a chymmorth ni, nyni a attolygwn i ti o Arglwydd.

HOll-alluog Dduw, mi a attolygaf i ti edrych o honot yn raſuſol ar dy deulu hwn ymma, tros yr hwn y bu fodlon gan ein Harglwydd Jeſu Griſt gael ei fradychu, a'i roddi ynhwylaw dynion anwir, a dioddef angeu ar y groes, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gyda thydi a'r yſpryd glân, byth yn un Duw heb drangc na Gorphen. A-*men.*

HOll-alluog a thragywyddol Dduw, trwy yſpryd pa un y llywodraethir ac y ſancteiddir holl gorph yr Eglwys, derbyn ſy erfynion a'm gweddiau, y rhai yr ydwyf yn eu hoffrwm ger dy fron di dros bob grâdd o ddynion yn dy ſanctaidd Eglwys, fel y bo i bob aelod o honi, yn ei alwedigaeth a'i waſanaeth, allu yn gywir, ac yn dduwiol dy waſanaethu di, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

O Drugarog Dduw, yr hwn a wnaethoſt bob dŷn, ac ni chaſhei ddim a'r a wnaethoſt, ac ni fynnit farwolaeth pechadur, onid yn hytrach ymchwelyd o honaw a bŷw: trugarhâ wrth yr holl Iddewon, Twrciaid, Anffyddlonion, a Hereticiaid, a chymer oddiwrthynt bob anwybodaeth, caledwch calon, a dirmyg ar dy air, ag felly dŵg hwynt adref, wynfydedig Arglwydd at dy braidd, fel y bont gadwedig ymmhlith weddillion y gwîr Iſraeliaid, a bod yn un gorlan, dan yr un Bugail Jeſu Griſt ein Harglwydd, yr hwn ſydd yn byw ac yn teyrnaſu gydâ thi a'r yſpryd glân, un Duw, heb drangc na gorphen, *Amen.*

Holl-

HOll-alluog Dduw, yr hwn wyt yn dangos i bawb ſy' ar gyfeilion, lewyrch dy wirioneedd, er eu dwyn i ffordd cyfiawnder, caniadhâ i bawb a dderbynier i gymdeithas crefydd Grift, allu o honynt ymygkyd y cyfryw bethau ac y ſydd wrthwyneb i'w profeſs, a chanlyn y ſawl bethau oll ag a fyddo yn cyttuno a'r unrhyw, trwy ein Harglwydd Jeſu Grift. *Amen.*

ARglwydd, oddiwrth ba un y daw pob daioni, caniadhâ i ni dy ufudd weiſion, allu o honom trwy dy ſanctaidd yſprydoliaeth di, feddwl y pethau a fo union; a thrwy dy ymgoleddus dywyſogaeth eu gwneuthur yn ddibennus, trwy ein Harglwydd Jeſu Grift. *Amen.*

DUW, yr hwn a ddyſcaiſt galonnau dy ffyddlonion, gan anfon iddynt lewyrch dy lân yſpryd; caniadhâ i nyni trwy yr unrhyw yſpryd ddeall yr iawn farn ymhob peth, y byth lawenychu yn ei wynfydedig ddyddanwch ef, trwy rygkyddon Jeſu Grift ein Iachawdwr, yr hwn ſydd yn byw, ac yn teyrnaſu gydâ thi yn undeb yr unrhyw yſpryd, yn un Duw heb drangc na gorphen. *Amen.*

DUW, yr hwn wyt yn egluro dy Holl-alluog Nerth, yn bennaf gan ddangos trugaredd a thoſturi, yn drugarog dyro i ni y cyfryw feſur o'th râs, fel y bo i ni gan redeg ar hyd ffordd dy orchymmynion gyrhaeddyd dy radol addewidion, a chael ein gwneuthur yn gyfrannogion o'th nefol dryſor, trwy Jeſu Grift ein Harglwydd. Amen.

Duw

DUW, yr hwn a wyddoſt ein bod ni yredi ein goſod mewn cymmaint a cynnifer o beryglon, ag nas gallwn o herwydd gwendid dynol, ſefyll bob amſer yn uniawn: caniadha i ni y cyſtyw dy nerth a'th nodded i'n cymmorth ymhob perygl, ac i'n harwain trwy bob profedigaeth trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen.*

O Dduw, Bendigedig Fâb yr hwn a ymddangoſodd, fel y dattodai weithredoedd Diafol, ac y gwnae ni yn feibion i Dduw, ac yn etifeddion bywyd tragywyddol, caniadha i ni, mi a attolygaf i ti, gan fod gennym y gobaith hyn, ein puro ein hunain, megis y mae ynteu yn bûr; fel pan yr ymddangoſo eilwaith gydâ nerth a gogoniant mawr, i'n gweneler yn gyffelyb iddo ef yn ei dragywyddol a'i ogoneddus deyrnas; ymhâ un gyda thi, o Yſpryd glân, y mae ef yn byw ac yn teyrnaſu byth yn un Duw heb drangc na gorphen, *Amen.*

HOll-alluog Dduw, yr hwn a roddaiſt dy un Mâb i ni yn aberth tros bechod, a hefyd yn enſampl o fuchedd dduwiol, dyro i ni dy ras, fel y gallom byth yn ddiolchgar dderbyn ei anrhaethawl leſhâad ef; a hefyd beunydd ymroi i ganlyn bendigedig ſyrybrau ei wir lanaf fuchedd ef, trwy yr un Jeſu Griſt ein Harglwydd: *Amen.*

[*Os ni ddywedaſoch ar holl weddiau hyn troſtynt, pan fo'r Gweinidog yn barod i gynnyg i chwi y Bara, yna ar ol ei dderbyn ef, ewch ymlaen ar llaill nes y delo i rodai i chwi y Cwppan; o bydd rhai etto heb eu dywedyd, chwi ellwch*

eu

eu cyſteu megis y cyſarwyddir chwi yn ol llaw. Ond os ni pharhant nes y neſſao 'r Cwppan, chwi ellwch yn y cyſamſer arferu rhai o'r Myſyrdodau allan o'r Serythur a gewch ar ddiwedd y Gwaſanaeth hwn.]

Pan ſo y Gweinidog yn neſſâu, dywedwch.

EIn Tâd yr hwn wyt yn y Nefoedd, ſancteiddier dy Enw. Deuet dy deyrnas. Bid dy ewllys ar y ddaiar, megis ỹ mae ỹn y Nefoedd. Dyro i ni heddyw ein bara beunyddol. A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ni i'n dyled-wir. Ac nac arwain ni i brofedigaeth. Eithr gwared ni rhag drŵg :canys eiddot ti yw 'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant yn oes oeſoedd. *Amen.*

YR Holl-alluog *D*duw, i'r hwn y mae pob calòn yn agored, a phob deiſyf yn gydnabyddus, a rhag yr hwn nid oes dim dirgel yn guddiedig, glanha feddyliau fynghalon trwy yſprydoliaeth dy lân Yſpryd, fel y carwyf dydi yn berffaith, ac y mawrhawyf yn deilwng dy enw ſanctaidd, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd, *Amen.*

CAniadha mi a attolygaf i ti, Arglwydd graſawl, i mi felly fwytta cnawd dy anwil Fâb Jeſu Griſt, ac yfed ei waed ef, fel y gallo fynghorph pechadurus gael ei wneuthur yn lân drwy ei gorph ef, a'm henaid ei olchi drwy ei wrthfawroccaf waed ef, fel y gallwyf byth drigo yntho ef, ac ynteu ynof finnau. Amen.

Pan

Pan ſo ynghylch rhoddi i chwi y Bara, dywedwch.

COrph ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn a roddwyd troſofi, a gatwo ſynghorph a'm henaid i fywyd tragywyddol: a caniadha i mi gymeryd a bwytta hwn, er côf fawr o Griſt troſofi, ac ymborth arno yn ſynghalon drwy ffŷdd, gan roddi diolch. Amen.

Pan ſo ynghylch rhoddi i chwi y Cwppan, dywedwch.

GWaed ein Harglwydd Jeſu Griſt, yr hwn a dywalltwid troſofi, a gatwo ſynghorph a'm henaid i fywyd tragywyddol: a caniadha i mi yfed hwn er côf tywallt gwaed Griſt troſofi a bod yn ddiolchgar. Amen.

Wedi i chwi dderbyn y ddau, dywedwch,

Gogoniant i'r Tâd, ac i'r Mâb, ac i'r Yſpryd glân.

Megis yr oedd, *&c.*

YMae yn gwbl addas, yn gyfiawn, a'm rhwymedig ddyled i yw, bob amſer, ac ymhob lle, ddiolch i ti ſanctteiddiol Dâd, holl-alluog, dragywyddol Dduw, Ond yn bendifaddef, ar yr amſer ymma, ac yn y lle hwn, am deilyngu o honot fymhorthi ar dy fwrdd ſanctaidd a chorph a gwaed dy anwyl Fâb, a'm unig Iachawdwr Jeſu Griſt, er fy mawr gonffordd, er cryfhâad a diddanwch i'm henaid. Gan hynny gydag Angelion ac Arch-Angelion, a chydag oll gwmpeini Nef, ynghyd a'th ffyddlawn bobl ymma ar y ddaiar, y moliannaf, ac y mawrhâaf dy ogoneddus Enw, gan dy

foliannu

foliannu yn wastad a dywedyd, Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw'r lluoedd; Nêf a daiar sydd yn llawn o'th ogoniant a so i ti o Arglwydd goruchaf. Amen.

HOll-alluog a byth-fywiol Dduw, yr wyfi yn mawr ddiolch i ti, am fod yn wiw gennyt borthi, nid myfi yn unig, ond hefyd yr holl rai ac sydd yn derbyn yn ddyledus y dirgeledigaethau sancteiddiol hyn, ag ysprydawl ymborth gwerthfawroccaf gorph a gwaed dy Fâb ein Iachawdwr Jesu Grist, ac wyt yn ein sicrhâu ni drwy hynny o'th ymgeledd a'th ddaioni i ni, yn bod yn wir aelodau, wedi ein corpholaethu yn nirgel gorph dŷ Fab, yr hwn yw gwynfydedig gynnull-eidfa yr holl fyddlon bobl; a'n bod hefyd trwy obaith yn etifeddion dy deyrnas dragywyddol, trwy haeddedigaethau gwerthfawroccaf angeu a dioddefaint dy anwil Fab. Ac yr wyf yn ostyngedig yn attolygu i ti o Nefawl Dad, felly syngynnorthwyo i, a phawb eraill a'th râd, fel y gallom yn wastad aros yn y sanctaidd gymdeithas honno, a gwneuthur pob rhyw weithredoedd da, ac a ordeinaist i ni rodio ynddynt, trwy Jesu Grist ein Harglwydd, i'r hwn gyda thi a'r yspryd glan, y bo'r holl anrhydedd, a'r gogoniant yn dragywyddol. *Amen.*

HOll-allûog Dduw, yr hwn a gyssylltaist yng hyd dy etholedigion yn un cyfundeb a chymdeithas yn nirgeledig gorph dy Fab Crist ein Harglwydd caniadha i ni râd felly i ganlyn dy fendigedig Sainct ymhob rhinweddol a dwywol fywyd, fel y gallom ddyfod i'r annrhaethawl lawenydd hynny a barottoaist i'r rhai yn diffuant sy' i'th garu, trwy Jesu Grist ein Harglwydd. *Amen.*

Holl

HOll-alluog Arglwydd, a byth-fywiol Ddduw, mi a attolygaf i ti fod yn wiw gennit unawni, ſancteiddio, a llywodraethu ein calonnu a'n cyrph, yn ffyrdd dy ddeddfau, ac yngweithredoedd dy orchymmynion, megis, trwy dy gadarnaf noddfa, yma ac yn dragywyddol, y gallom fod yn gadwedig gorph ac enaid, trwy ein Harglwydd a'n Iachawdwr Jeſu Griſt. *Amen.*

ARglwydd yr holl nerth a'r cadernid, yr hwn wyt Awdwr a rhoddwr pob daioni, planna yn ein calonnau gariad dy Enw, ychwanega ynom wîr grefydd, maetha nyni a phob daioni, ac o'th fawr drugaredd cadw ni yn yr unrhyw, trwy Jeſu Griſt ein Harglwydd. *Amen*

NErtha ni, attolygwn i ti, Arglwydd, a'th Yſpryd glân y diddan-wr, a pheunydd ychwanegaynom dy aml ddonniau o râd, yſpryd doethineb a deall, yſpryd cyngor a nerth yſprydol, yſpryd gwybodaeth a gwîr dduwioldeb; a chyflawna ni Arglwydd ag yſpryd dy ſanctaidd ofn, yr awr hon ac yn dragywydd, *Amen.*

O Arglwydd, bendithia a chadw ni, llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnom, dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnom, a rhodded i ni dangneddyf yr awrhon ac yn oes oeſoedd. Amen.

(Os bydd dim o'r gweddiau a grybwyllwyd o'r blaen heb eu dywedyd cyfleuwch hwy ymma: ond os ni fydd dim yno nes y darfyddo i'r llaill gymmunno, ymarferwch eich meddyliau ar y cyſrwy o'r myfyrdodau hyn ag ni arferaſoch o'r blaen.)

PSal 16. 1. Cadw fi o Dduw; canys ynot y ymddiriedaf.

Pſ. 17. 5. Cynnal fy ngherddediad yn dy lwybrau, fel na lithro ynghraed.

Pſ. 19. 12. Pwy a ddeall ei gamweddau? Glanhâ fi oddiwrth fy meiau cuddiedig.

13. Attal hefyd dy wâs oddiwrth bechodau rhyfygus; na arglwyddiaethant arnaf; yna i'm parfeithir, ac i'm glanhêir oddiwrth anwiredd lawer.

Pſ. 51. 1. Trugarhâ wrthyf, o Dduw, yn ôl dy drugarowgrwydd; yn ol lliaws dy doſturiaethau dilêa fy anwireddau.

2. Golch fi yn llwyr oddiwrth fy anwiredd, a glanhâ fi oddiwrth fy mhechod.

3 Canys yr wyf yn cydnabod fynghamweddau, a'm pechod ſydd yn waſtad ger fy mron.

5, Wele mewn anwiredd i'm lluniwyd; ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf.

6, Wele, ceraiſt wirionedd oddi-mewn: a phen i mi wybod doethineb yn y dirgel.

7, Glanhâ fi ag yſſop, ac mi a lanheir: golch fi, a byddaf wynnach na'r eiry.

8, Pâr i mi glywed gorfoledd, a llawenydd; fel y llawenycho yr eſgyrn a ddyrlliaiſt.

Pſ. 103. 1, Fy enaid, bendithia 'r Arglwydd; a chwbl ſydd ynof ei enw ſanctaidd ef.

2, Fy enaid bendithia'r, Arglwydd ac nac anghofia ei holl donniau ef.

3, Yr hwn ſydd yn maddeu dy holl anwireddau; yr hwn ſydd yn iachâu dy holl leſcedd.

4, Y

4, Yr hwn ſydd yn gwaredu dy ſywyd o ddiſtryw; yr hwn ſydd yn dy goroni a thrugaredd ac a thoſturi.

5, Yr hwn ſydd yn diwallu dy enau a daioni; fel yr adnewyddir dy ieuengctid fel yr eryr.

8, Trugarog a graſlawn yw'r Arglwydd; hwyrfrydig ei lîd, a mawr o drugarowgrwydd.

9, Nid byth yr ymryſſon ef; ac nid byth y cadw efe ei ddigoſaint.

10. Nid yn ol ein pechodau y gwnaeth efe â ni, ac nid yn ol ein hanwireddau y talodd efe â ni.

11, Canys cyfuwch ac yw 'r nefoedd uchlaw 'r ddaiar; y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef.

12. Cyn belled ac yw 'r dwyrain oddiwrth y gorllewin, y pellhâodd efe ein cammweddau oddiwrthym.

13, Fel y toſturia tâd wrth ei blant, felly y toſturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef.

14, Canys efe a edwyn ein defnydd ni: fe gofia mai llwch ydym.

Pſ. 145. 9, Daionus yw 'r Arglwydd i bawb, a'i drugaredd ſydd ar ei holl weithredoedd,

10, Dy holl weithredoedd a'th glodforant, O Arglwydd, a'th Sainct a'th fendithiant.

11, Dywedant am ogoniant dy Frenhiniaeth, a thraethant dy gadernid.

12, I beri i feibion dynion adnabod ei gadernid ef, a gogoniant ardderchowgrwydd ei Frenhiniaeth.

13, Dy Frenhiniaeth di ſydd frenhiniaeth dragywyddol, a'th lywodraeth a bery yn oes oeſoedd.

14, Yr Arglwydd ſydd yn cynnal y rhai oll

a fyrthaint, ac fydd yn codi pawb a ddaroſtyngwyd.

15. Llygaid pob peth a ddiſgwyliant wrthyt; ac yr ydwyt yn rhoddi eu bywyd iddynt yn ei bryd.

16, Gan agoryd dy law, a diwallu pob peth byw a'th ewyllys dâ.

17. Cyfiawn yw'r Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a ſanctaidd yn ei holl weithredoedd.

18. Agos yw'r Arglwydd at y rhai oll a alwant arno, at y rhai oll a alwant arno mewn gwirionedd.

19, Efe a wna ewyllys y rhai a'i hofnant; gwrendy hefyd eu llefaint, ac a'u hachub hwynt.

20, Yr Arglwydd ſydd yn cadw pawb a'u carant ef; ond yr holl rai annuwiol a ddifetha efe.

21, Traetha fyngenau foliant yr Arglwydd, a bendithied pob cnawd ei enw ſanctaidd ef byth ac yn dragywydd.

Pſ. 92, 1. Da yw moliannu yr Arglwydd, a chanu mawl i'th Enw di, y Goruchaf.

2, A mynegi y boreu am dy drugaredd, a'th wirionedd y noſweithiau.

4, Canys llawen ychaiſt fi, o Arglwydd, a'th weithred; yngwaith dy ddwylaw y gorfoleddaf.

Pſ. 33. 1. Glodforaf yr Arglwydd a'm calon, ynghymmanfa y rhai uniawn, ac yn y gynnulleidfa.

2, Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd, wedi eu ceiſio gan bawb a'u hoffant.

3, Gogoniant a harddwch yw ei waith ef, a'i gyfiawnder ſydd yn parhau byth.

4, Gwnaeth gofio ei ryfeddodau; graſlawn a thrugarog yw'r Arglwydd.

5, Rhoddodd ymborth i'r rhai a'i hofant ef,

efe

ſe a gofia ei gyfammod yn dragywydd.

7, Gwirioned a barn yw gwithredoedd ei ddwylaw ef, ei holl orchymynion ydynt ſiccr.

8, Wedi eu ſiccrhau byth ac yn dragywydd, a'u gwneuthur mewn gwirionedd ac uniawnder.

9, Anfonodd amwared i'w bobl, gorchymynodd ei gyfammod yn dragywyddol, ſanctaiddiol ac ofnadwy yw ei enw ef.

Pſ. 118. 19. Agorwch i mi byrth cyfiawnder, âf i mewn iddynt, a chlodforaf yr Arglwydd.

20, Dyma borth yr Arglwydd, y rhai cyfiawn a ânt i mewn iddo.

21, Clodforaf di, o herwydd i ti fy ngwrando, a'th fod yn iechydwriaeth i mi.

22, Y maen a wrthododd yr adeilad-wir a aeth yn ben i'r gongl.

23, O'r Arglwydd y daeth hyn; hyn oedd ryfedd yn ein golwg ni.

24, Dyma'r dydd a wnaeth yr Arglwydd; gorfoleddwn, a llawenychwn yndo.

25, Attolwg, Arglwydd, achub yn awr, attolwg, Arglwydd pâr yn awr lwyddiant,

26, Bendigedig yw a ddêl yn enw'r Arglwydd; bendithiaſom chwi o dy'r Arglwydd.

27, Duw yw'r Arglwydd, yr hwn a lewyrchodd i ni; rhwymwch yr aberth a rhaffau hyd wrth gyrn yr allor.

28, Fy Nuw ydwyt ti, mi a'th glodforaf; dyrchafaf di, fy Nuw.

Pſ. 71 8. Llanwer fyngenau a'th foliant, ac a'th ogoniant beunyd.

Pſ. 84, 1, Mor hawddgar yw dy bebyll di, o Arglwydd y lluoedd.

4, Gwyn fyd preſwylwyr dy dŷ, yn waſtad i'th foliannant.

10, Canys gwell yw diwrnod yn dy gynteddau di, na mîl, dewiſwn gadw drws yn nhy fy Nuw o flaen trigo ymmhebyll annuwioldeb.

11, Canys haul a tharian yw'r Arglwydd Dduw, yr Arglwydd a rydd râs a gogoniant: ni attal efe ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn berffaith.

Pſ. 27, 4 Un peth a ddeiſyſais i gan yr Arglwydd, hynny a geiſiaf; ſef caffael trigo ynnhŷ'r Arglwydd holl ddydiau fy mywyd, i edrych ar brydferthwch yr Arglwydd, ac i ymofyn yn ei Deml.

Pſ. 55, 4, Canys gwyn ei fyd yr hwn a ddewiſech ac a neſſaech attat; ſel y trigo yn dy gynteddoedd: ni a ddigonir a daioni dy dŷ, ſef dy Deml ſanctaidd.

Pſ. 92, 12, 13. Y rhai a blannwyd ynhŷ'r Arglwydd, a flodeuant ynghynteddoedd ein Duw.

14, Ffrwythant etto yn eu henaint, tirfion ac iraidd fyddant.

Pſ. 36, 8. Llanddigonir hwynt a brafder dy dŷ, ac ag afon dy hyfrydwch y diodi hwynt.

9, Canys gyda thi y mae ffynnon y bywyd, yn dy oleuni di y gwelwn oleuni.

10. Eſtyn dy drugaredd i'r rhai a'th adwaenant, a'th gyfiawnder i'r rhai uniawn o galon.

Pſ. 40, 6, Llawenyched ac ymhyfryded ynot ti y rhai oll a'th geiſiant, dyweded y rhai a garant dy iechydwriaeth, bob amſer Mawryger yr Arglwydd.

Pſ. 7, 9, Darfydded weithian anwiredd yr annuwolion eithr cyfarwydda di y cyfiawn.

Pſ. 125, 4, O Arglwydd, gwna ddaioni i'r rhai daionus, ac i'r rhai uniawn yn eu calonnau.

Pſ. 119, 17, Bydd dda wrth dy was, fel y byddwyf

byddwyf byw, ac y cadwyf dy air.

18, Datcuddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di.

19, Deithr ydwyfi ar y ddaiar, na chûdd dy orchymynion rhagof dy orchymynion.

20, Drylliwyd fy enaid gan awydd i'th farnedigaethu bob amſer.

25, Glynodd fy enaid wrth y llwch, bywha fi yn ol dy air.

26, Fy ffyrdd a fynegais, a gwrandewaiſt fi: dyſc i mi dy ddeddfau.

27, Gwna i mi ddeall ffordd dy orchymynion; ac mi a fyfyria yn dy ryfeddodau.

33, Dyſc i mi o Arglwydd, ffordd dy ddeddfau; a chadwaf hi hyd y diwedd.

34, Gwna i mi ddeall, a chadwaf dy gyfraith; ie cadwaf hi a'm holl galon.

35, Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys.

36, Goſtwng fynghalon at dy dyſtiolaethau, ac nid at gybydd-dra.

37, Tro heibio fy llygaid, rhag edrych ar wagedd, bywha fi yn dy ffyrdd.

38, Sicrrha dy air i'th was, yr hwn ſy'n ymroddi i'th ofn di.

41, Deued i mi dy drugaredd, Arglwydd, a'th iechydwriaeth yn ol dy air,

42, Yna yr attebaf i'm cablydd, o herwydd yn dy air y gobeithiais.

43, Na ddŵg ditheu air y gwirionedd o'm genau yn llwyr, o herwydd yn dy farnedigaethau di y gobeithiaſ.

44, A'th gyfraith a gadwaf yn waſtadol, byth ac yn dragywydd.

47, Ac ymddigrifaf yn dy orchymmynion, y

rhai a hoffais.

57, O Arglwydd, fy rhan ydwyd; dywedais y cadwn dy eiriau.

58, Ymbiliais a'th wyneb a'm holl galon, trugarha wrthyf yn ol dy air;

73, *Dy* ddwylaw a'm gwnaethant, ac a'm llunfaſant, pâr i mi ddeall, fel y dyſgwyf dy orchymmynion.

80, Bydded fynghalon yn berffaith yn dy ddeddfau; fel na'm cywilyddier.

88, Bywhâ fi yn ol dy drugaredd, felly y cadwaf dyſtiolaeth dy enau.

97, Mor gû gennyf dy gyfraith di! hi yw fy myfyrdod beunydd.

103, Mor felus yw dy eiriau i'm genau! melusach na mêl i'm ſafn.

104, Trwy dy orchymmynion di y pwyllais, am hynny y caſêais bob gau lwybr.

105, 1, Lleuſern ym dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybr.

106, Tyngais, a chyflawnaf, y cadwn farnedigaethau dy gyfiawnder.

108, Attolwg, Arglwydd, bydd fodlon i ewllyſgar offrymmau fyngenau, a dyſc i mi dy farnedigaethau.

111, Cymmerais dy orchymmynion yn etifeddiaeth dros byth, a herwydd llawenydd fynghalon ydynt.

112, Goſtyngais fynghalon i wneuthur dy ddeddfau byth hyd y diwedd

113, Meddyliau ofer a gaſêais, a'th gyfraith di a hoffais.

114, Fy lloches a'm tarian ydwyt, yn dy air y gobeithiaf.

115, Ciliwch oddiwrthyf, rai drygionus, canys cadwaf orchymmynion fy Nuw.

116, Cynnal fi, yn ol dy air, fel y byddwyf

byw, ac na âd i mi gywylyddio a'm ſyngobaith.

117 Cynnal fi, a diangol fydda, ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn waſtadol.

122, Mechnia dros dy wâs er daioni, na âd i'r beilchion ſynghorthrymmu.

124, Gwnâ i'th wâs yn ol dy drugaredd, a dyſg i mi dy ddeddfau.

125, Dy wâs ydwyf fi; par i mi ddeall, fel y gwypwyf dy dyſtiolaethau.

127, Am hynny 'r hoffais dy orchymmynion yn fwy nac aur, ïe yn fwy nac aur coeth.

128, Am hynny uniawn y cyfrifais dy orchymmynion am bob peth, a chaſêais bob gau lwybr.

132, Edrych arnaf, a thrugarha wrthyf yn ol dy arfer i'r rhai a garant dy Enw.

133, Cyfarwydda ſynghamrau yn dy air, ac na lywodraethed dim anwiredd arnaf.

135. Llewyrcha dy wyneb ar dy wâs, a dyſc i mi dy ddeddfau.

145, Lleſaf a'm holl galon, clyw fi, o Arglwydd, dy deddfau a gadwaf.

146 Arnat ti y lleſais, achub fi, a chadwaf dy dyſtiolaethau.

147, Achubais flaen y cyſddydd a gweddiais, wrth dy air y diſgyliais.

148, Fy llygaid a achubaſant flaen gwiliadwriaethau y nos, i fyfyrio yn dy air di.

149, Clyw fy llêf yn ol dy drugaredd: Arglwydd bywha fi yn ol dy farnedigaethau.

156, Dy drugareddau, Arglwydd, ſydd aml; bywha fi yn ol dy farnedigaethau.

159, Gwêl fy mod yn hoffi dy orchymmynion, Arglwydd, bywha fi yn ol dy drugarowgrwydd.

171, Felly fyngwefuſau a draetha foliant, pan ddyſgech i mi dy ddeddfau.

172, Fynhafod

172. Fynhafod a ddatcan dy air, o herwydd dy holl orchymmynion fydd gyfiawnder.

Pſ. 71, 15. Fyngenau a fynega dy gyfiawnder, a'th iechydwriaeth beunydd; canys ni wn rifedi arnynt.

Pſ. 145. 1: Dyrchafaf di, fy Nuw, o Frenhin: a bendithiaf dy Enw byth ac yn dragywydd.

2. Beunydd i'th fendithiaf: a'th Enw a folaf byth ac yn dragywydd,

21. Traetha fyngenau foliant yr Arglwydd, a bendithied pob cnawd ei Enw ſanctaidd ef byth ac yn dragywydd.

Llech-res o Bechodau o Eſceuluſad, ac o Weithred tuagat Dduw, ein Cymmydog, a ni ein hunain; tra-angenrhaid i'w darllen yn ddyfal gan y rheini oll a fynnant gyflawn adnabod, dyledus gyfaddef, a diffuant Edifarhau am yr unrhyw; yn enwedig i'w harferu o flaen y Sacrament.

Pechodau o Eſceuluſad a Gweithred tuagat Dduw.

Y Gorchymmyn cyntaf a dorrir trwy Bechodau o

Eſceuluſad.

Pan na ymorolom yn ddiwyd am wybodaeth o Dduw.

Pan na bo genym ymddiried gwaſtadol ar Dduw, Ffydd ddiyſcog, Gobaith fywiol, a hyder cryſ yn Nuw.

Pan

Pan na charom ef oddiar bob peth.

Pan na thaer-ddeiſofom ei breſennoldeb ef, ac na ymhyfrydom yn y mwynhad o honaw.

Pan yr Eſcudluſom foliannu ei Ardderchowgrwydd ef, addoli ei Fawrhydi, a chwennych yn ddirfawr ei ogoniant.

Pan nad ofnom ei anfodhau a'i annog ef,

Pan na phryſſurom i edifarhau am y pechodau hynny, trwy ba rai y digiaſom ef.

Pan nad ymegniom i ddwyn y rheini i edifeirwch, pa rai trwy ein cyngor, neu ein eſampl ddrŵg y paraſom iddynt droſeddu yn ei erbyn ef.

Pan na lafuriom i'w fodloni ef ymhob peth.

Pan na wîr ufuddhâom ei holl orchymmynion ef, na ymoſtyngom yn ymmyneddgar i'w holl goſpedigaethau, ac na lwyr roddom ein hunain i fynu i'w holl ewyllys ef.

Pan na fom wîr ddiolchgar am ei holl fendithion ef.

VVeithred,

Pan waſanaethom neu yr addolom neb arall megis Duw.

Pan ddioddefom neb arall i gyd-garu ag ef, ac i gyfrannu ag ef yn ein calon; neu pan fom euog o ormod ſerch tuagattom ein hunain.

Pan fom yn euog o Anwybodaeth gwîrfodd, rhagrith, anghrefydd, annuwiolder, diſtrawŵch, opiniŵnau an anuwiol a Sciſm, ymadawiad a'r Ffydd anffyddlonder, ac ammheuaeth ynfyd o ryfig anobaith, a diofalwch cnawdol, o falchder, anufudd-dod, annioddefgarwch a grwgnach.

YR ail Gorchymmynion a dorrir trwy bechodau o

Eſceuluſad.

Pan eſceuluſom waſanaethu Duw, naill ai yn gyhoedd, ai yn ddirgel.

Pan na bo gennym barch dyledus i holl rannu ei Addoliad, megis Gweddi, y Gair, a'r Sacramentau, neu y delom iddynt heb ddyledus barottoad.

Pan na roddom ddyledus bareh i bob lleoedd, dynion, a phethau a gyſſegrwyd i Dduw.

Weithred.

Pan wnelom Eilynod, neu ddelwau mewn bwriad i addoli, ac i ymgrymmu a'u blaen hwy.

Pan wnelom luniau, a chyffelybiaethau o Dduw trwy rithiau gweledig o neb ryw beth.

Pan addolom Angelion, neu y galwom yn greſyddol ar un creadur.

Pan halogom trwy gyſſegr-yſpail Dŷ Duw, neu bethau ſanctaidd.

Pan ddirmygiom, gam-arferom, ddibriſiom, neu y diyſtyrom Air Duw, Gweinidogion, ac Ordinhâdau.

Pan arferom ddefodau anghyfreithlon, ofergoelus, ac anweddus yn Addoliad Duw.

Pan orphwyſom ar gyfarchwyliau oddiallan yn unig, ffurfiau, chyſgodau o greſydd, neu pan gyfriſom fod Creſydd yn ſeſyll yngwrando pregethau heb eu ymarfer hwy.

Pan wnelom Greſydd i waſanaethu dibennion drwg, gan wneuthur dâ i ddibennion drwg, neu

neu ddrwg tan rîth daioni

Y Trydydd Gorchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Eſceuluſad,

Pan nad ogoneddom ei enw ſanctaidd ef yr holl ffyrdd a allom.

Pan nad yſtyriom pwy Addunedau ac Addewidion a wnalom i Dduw, a chyn eu gwneuthur lawnſwriadu eu cadw hwy.

Pan anghofiom gadw y rheini a wnaethom eiſoes, yn enwedig y rheini yn ein Bedydd a Swpper yr Arglwydd.

Pan na fom wîr alarus ac edifeiriol am gynnifer ac a dorraſom:

Pan na fom yn gydwybodus yn cadw pob llyſon cyfreithlon, ac Addewidion a wnaed i ddynion.

Weithred.

Pan gymmerom enw Duw i'n geneuau ar Achoſion ofer ac yſcafn.

Pan naill ai y cam-arferom ef ein hunain mewn cellweiriau anuwiol, melldithion, a rhegfŷdd, neu y gallom yn fodlonus ddioddef gwrando eraill yn ei gam-arfer felly.

Pan fo gennym fyddyliau anhybareh o'i dra-ogoneddus enw a'i natur ef.

Pan yr halogom, neu y cablom ef, neu y parom i eraill wneuthur felly trwy ein bucheddau drŵg ni.

Pan arferem ddim llyſon cynneſiol a byrbwyll, gan dyngu i Dduw neu un Creadur.

Pan wnelom ddim Addunedau diſymmwth, ang-

anghyfreithlon, ac ofer-goelus, neu y cyfryw na bo yn ein gallu eu cyflawni.

Y Pedwerydd Orchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Esceulusad.

Pan na chadwon y dyddiau hynny yn ſanctaidd, pa rai a orchymmynodd Duw a'i Eglwys eu cadw yn grefyddol.

Pan na rwymom ein Teuluoedd i dreulio y dyddiau hyn (y Sabbath yn bendifaddeu) yngwaſanaeth Duw yn yr Eglwys a chartref,

Pan na threuliom y rhai'n oddiar ddyddiau eraill mewn Gorchwylion o Gariad, ac yn annog naill y llall i weithredoedd da.

Weithred.

Pan halogom y dydd Sabbath neu y cynhwyſom ein hunain, neu ein Teuluoedd i arfer chwareuon a difyrrwch gwaharddedig arno.

Pan ſynniom o'r dydd hwn, neu y cadwon ef megis yr Iddewon.

Pan ddilynom ein gorchwylion bydol, neu y gwnelom ddim negeſenau afraid arno.

Pan gymmerom ſiwrneion afraid arnom, ac y naccâom y Gorphwyſtra hwnnw i'n hanifeiliaid, y mae Duw yn ei oſyn.

Pan fom un ffordd yn anghofio Duw ar y Dydd hwn.

Pech-

Bechodau o Eſceuluſad a Gweithred tuagat ein Cymmydog, a ni ein hunain.

Y Pummed Gorchymmyn a dorrir trwy Bechodau o

Eſceuluſad.

Mewn Rhieni Naturiol, pan na charant na faethant, ac ni ddarparant i'w plant; pan na iawnddygant hwy i fynu, na athrawiaethant, ac ni weddiant troſtynt; pan na annogant hwy i ddaioni trwy eu ſiamplau, ac ni ddychrynant hwy oddiwrth ddrwg trwy Goſpedigaethau.

Mewn Rheini Dinaſaidd, neu Benſwyddogion pan na iawn-reolant, ac ni amddiffynnant eu bobl; pan na cheryddant ddrwg-weithredwyr; ac na chanmolant y rhai a wnant ddâ: pan na fynnant weled gwaſanaethu Duw, maentimio Gwirionedd, a gwnuthur Cyfiawnder dyledus trwy eu holl wledydd.

Mewn Rhieni Eglwyſig, neu Fugeiliaid; pan na wyliant tros Eneidiau eu pobl, na athrawiaethant hwy mewn gwybodaeth achubol, na chyſarwyddant hwy a'u ſiamplau da, pan na weddiant troſtynt, ac na fendithiant hwy; pan na ymegniant i gadw i fynu yn eu myſc hwy holl ſanctaidd Ordinhadau Duw a Dyſcyblaeth iachus yr Eglwys.

Mewn Rhieni Teuluaidd, neu Feiſtri neu Feiſtreſau, pan na charant, ac ni ddarparant yn ddigonol i'w Gweinidogion, pan na roddant iddynt eu cyfiawn gyflogau, gwaſanaeth rheſymmol, ſiamplau dâ, argyhoeddion llaryaidd, a cherydd trugarog.

Yn

Yn y rheini ſydd Oruchafiaid mewn oedran, pan na lafuriant i ragori mewn doethineb, ſobrwydd, gweddeidd-dra ac Awdurdod yn eu geiriau, a'u gweithredoedd.

Yn y rheini ſydd Oruchafiaid mewn Donia, pan na athrawiaethant yr anwybodus, ac na chyddygant a gwendid y gweiniaid.

Yn y Rheini ſydd Oruchafiaid mewn Cyfiwr, pan na chyfrannant yn fwy helaeth o'u golud i gynnorthwyo y tlodion.

Ymhob Plant, Deiliaid, ac Iſafiaid; pan na charant, na anrhydeddant; ac na chymmorthant eu Tâd a'u mam; pan na anrhydeddant ac na ufuddhant y Brenhin, a phawb ſydd mewn Awdurdod tano; pan na ymddarofyngant eu hunain i'w holl Lywiawd-wŷr, Dyſcawd-wŷr, Bugeiliaid Yſprydol, ac Athrawon; a phan na ymddygant eu hunain yn oſtyngedig gan berchi pawb o'r gwell.

VVeithred.

Mewn Plant, pan ſont yn anoſtyngedig, yn gyndyn, yn anufudd, ac yn ddibarch i'w rhieni, neu yn gywilydd ganddynt eu tlodi.

Mewn Deiliaid, pan wrthryfelant, pan wnânt gydfrad, ac pan ymwnânt yn erbyn y Brenhin a'i Weinidogion, pan ddifenwant, y rhegant hwy, ac y chwenychant ddrwg iddynt.

Yn y Bobl, pan dwyllant, pan ddirmygant, pan ddiyſtyrant, pan fwriant ymaith, ac yr ymwrthodant a'u Bugeiliaid cyfreithlon.

Mewn Gweinidogion, pan anufuddhânt, eſceuluſant, ac y diyſtyrant eu meiſtri neu eu meiſtreſſau.

Yn

Yn rhai'n oll, pan fônt yn ffalſ, yn anffyddlon ac yn fradychus; pan fônt yn anfoeſol, ac yn anniolchgar i neb o'u perthynas.

Ymhôb Iſafiaid pwy bynnag, pan fônt yn gyndyn, yn ymryſſongar, yn dra balch ac yn anhybarch yn eu hymddygiad tuagat neb o'u gwell neu a fo uwch na hwynt.

Ymhôb Rhieni, Llywiawd-wŷr, ac Uchafiaid, pan fônt yn drahâus, ac yn greulon, yn dôſt ac yn filain, yn dynn ac yn chwerw yn erbyn eu Hiſafiaid.

Y Chweched Gorchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Eſcenluſad.

Pan na arferom foddion cyfreithlon i achub ein heinioes ein hunain, ac i ddiogelu ein hunain, ein heddwch a'n happuſwydd.

Pan na charom ein cymmydog fal ni ein hunain, na ymegnion i geiſio ac i hyfforddi ei iechyd, diogelwch, bywyd, a dedwyddwch amſerol a thragywyddol.

Pan na fôm yn addfwyn, yn rhywiog, yn llaryaidd, yn ddâ, yn ymmyneddgar, ac yn ymarhous y naill wrth y llall.

Pan na bôm yn llawn toſturi, a chariad i gynnorthwyo, i gyſuro, ac i weddio tros y rheini, anghenrheidiau, trueni, a pheryglon pa rai a fo yn ei ofyn.

Pan na bom dueddgar i heddwch, yn hawdd gennym faddeu camweddau, a phob amſer yn barod i dalu da am ddrwg.

Weithred,

Pan ddifethom ein hunain neu yn afraid y rhoddom ein heinioes mewn perygl.

Pan ymrwymom ein hunain mewn ymorneſtau neu ryfel anghyfreithlon.

Pan whelom ddrŵg i gorph neu einioes ein cymmydog; naill ai yn uniongyrchiol trwy ei glwyfo, neu ei lâdd ef, neu yn anuniongyrchiol trwy lunio, neu roddi eraill ar waith i wneud niwed iddo.

Pan luniom un ffordd i beri i feichiogi fyned ymmaith.

Pan arfogom ein hunain yn erbyn ein cymmydogion mewn creulonder a thrais.

Pan ddilynom ef a chamweddau, bygythion ac ymddiol, pan groeſawon gaſineb, cenfigen, a malais i'w erbyn.

Pan ddigiom yn fyrbwyll, yn ddiachos, ag yn anghymmedrol wrtho; pan ddywedom ddrwg i'w erbyn, y diferiwon, neu y rhegom ef: pan o'n gwîr-fodd y blinom, y triſtâom, neu yr aflonyddom ef.

Y Seithfed orchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Eſceuluſad,

Pan na ochelom bob offerau, annogiadau, ac odfau o halogi naill ai ni ein hunain, ai ein Cymmydog.

Pan na wyliom yn ddyfal, ac na weddiom rhag i un yſpryd drŵg fyned i mewn i ni, neu brofedigaeth ein gorddiwes.

pan

Pan na fom gymmhedrol yn ein bwydydd, a'n diodydd.

Pan na lafuriom i farwolaethu y enawd trwy ympryd a dirweſt.

Mewn dynion Priodol, pan na bo eu cariad yn gyſnewidiol, yn barhaus, ac yn ddihalog, yn llawn cymmodlonedd, cyd-naturiaeth, a dioddefgarwch.

Weithred.

Pan lygrom neu yr halogom naill âi gwely ein cymmydog, neu ein un ein hunain.

Pan halogom ein corph ffordd yn y bŷd.

Pan fom yn anniwair a'n llygaid, ein tafodau, ein dwylaw, neu yn un rhann o'r cyrph.

Pan annogom ac y porthiom ein trach wantau trwy ymborth nwyfus, cwmpieni, ymadrodd, canïadau, llyfrau a lluniau aflan; neu trwy drwſiadau anllad, dawnſiau a chwareuon.

YR wythfed Otchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Eſceulusad.

Pan na fom ddyfal a chŷdwybodus y moddion o gaffael cyfoeth, nac yn gyſiawn nac yn ddiffuant yn ein cydfaſnach y naill a'r llall.

Pan fom yn eſceulus, ac yn gwneud yn yſcafn o dalu ein dyledion.

Pan na fom aſtud a dyfal yn ein galwedigaeth, fal y darparom yn onest i ni ein hunain ac i'n Teuluoedd.

Pan na fom ewyllysgar i echwyna, ac i roddi'n cymmydog tlawd yn ol ein gallu, rhwydd i faddeu iddo yr hyn ni allo dalu, neu o'r hyn lleiat i gyd-ddwyn nes y gallo.

Weithred.

Pan ladrattom oddiar ein cymmydog, naill ai yn ddirgel, neu trwy yspeiliad cyhoedd; trais neu ymruthrad.

Pan wnelom gam ag ef trwy orthrymder, trais, occraeth dost-lym, neu ymgyfreithiau trallodus.

Pan symmudom derfyn tir ein cymmydog, yr attaliom gyflog y gweithiwr, y twyllom yr ymddifad, y weddw, a'r dieithr.

Pan gam-gadwom eiddaw eraill, ac y gwrthodom ei roi yn ol iddynt.

Pan fom yn anffyddlon yn ein crêd, a'n cydammodau, neu yn dwyllodrus yn ein galwedigaeth gan arfer pwysau a mesurau anghywir.

Pan gelom ddiffygion ein dâ ein hunain ac y dibrisiom eiddaw ein cymmydog.

Pan gymmerom fantais o anwybodaeth ac angen y rheini y marchnattom a hwy.

Pan fom yn rhugynnil, crintach, a chybyddus.

Pan fom yn rhy dreulgar, gwastraffus ac afradlon.

Y Nawfed Gorchymmyn a dorrir trwy bechodau o

Esceulusad.

Pan

Pan na fom dyoer o Enw a gair da ein cymmydog.

Pan na fom barod i freinioli ei Enw da ar bob chofion.

Pan na farnom y gorau, na ddywedom y gorau, na chelom, neu pan na efcufom ei wendid ef.

Pan nad attaliom (gymmaint ac a allom) ein clufiau rhag clywed, ein calonnau rhag credu, ein tafodau rhag tanu ar lêd anglod arno ef.

Pan na fom barod i roddi Tyftiolaeth i'r gwirionedd, i derfynu ymryfon rhwng Cymmydogion, ac i ddigolledu y fawl a gadd gam,

Weithred,

Pan ddygom gam-gyhuddiad, Dadl, Tyftiolaeth, neu farn yn erbyn ein cymmydog mewn Llyfoedd Barn.

Pan ddywedom naill ai gormod, ai rhŷfychau, ac nid yn ol gwirionedd, cyfiawnder a Barn.

Pan y beiom ar ein cymmydog, y cablom ag y rhoddom ddrŵg enllib iddo.

Pan y barnom yn genfigennus arno, y gwatwarom ac y datcuddiom ei wendid ef.

Pan ddelom yn Hufiyng-wyr, yn Awein-wŷr chwedlau yn Enllib wŷr; neu y croefawom ac y eefnogom y cyfryw.

Pan godom ddrŵg dŷb, eiddigeddau ac ammheuadau yn ein cymmydogaeth.

Pan y rhagrithiom, y gwenhieithiom, y dywedom eiriau dau-ddeall, a chelwydd wrth ein cymmydog.

Y Degfed Gorchymmyn a dorrir trwy bech
odau o

Eſceuluſad.

Pan na chadwom i lawr, ac na wrthwynebom
y cynnhyrfiadau cyntaf o wŷn, trachwant, neu
ddim awydd anghyfreithlon i ddim o eiddaw ein
cymmydog.

Pan na ddyſcom fod yn fodlon i'r cyflwr hwn
yw y rhodd Dduw ni yntho,

Weithred,

Pan genfigennom, ac y grwgnachom o herwydd
eyfoeth, dedwyddwch, a llwyddiant ein cym-
mydog.

Pan chwennychom yn awŷddus feddiannu dim
ſydd eiddaw iddo.

Pan ymhyfrydom mewn pechod, ac yr ymfod
lonom mewn aflendid a aeth heibio.

Pan ſom yn dra-chwannog yn dilyn naill a
chwant y cnawd, chwant y llygaid, balchder y
bywyd, hynny yw dim a'r ſydd yn y byd hwn,

TERFYN.